Rhif: WG42033

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth ddrafft i gryfhau a hyrwyddo cysondeb yn y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, er mwyn cyflawni canlyniadau gwaith teg a sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

Dyddiad cyhoeddi: Dydd Gwener, 26 Chwefror 2021
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn Dydd Gwener, 23 Ebrill 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg	Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ddrafft Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ac ar bolisi ehangach sy’n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.
Sut mae ymateb	Dylid anfon yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio’r manylion isod neu'r ffurflen ymateb ar-lein erbyn 23 Ebrill 2021 fan bellaf.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: SocialPartnership@gov.wales
Ar gael yn Saesneg hefyd yn:	https://llyw.cymru/bil-drafft-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol, a bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth i wneud penderfyniadau am sut byddant yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achrededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gael Cymru sy'n fwy teg, cyfartal a chyfiawn. Mae pandemig COVID-19 wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol ac i ddangos ei gwerth o ran gwneud penderfyniadau er budd ehangach pobl Cymru.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn dod ag undebau llafur, cyflogwyr a'r Llywodraeth at ei gilydd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin er mwyn canfod a gweithredu atebion sy'n cynnig canlyniadau gwell. Mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus drafft, yr ydym yn ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori, yn gam pwysig tuag at wireddu ein gweledigaeth o Gymru fel gwlad ag economi fywiog sy'n gwerthfawrogi ac yn diogelu ein gweithlu.

Mae partneriaeth gymdeithasol wedi'i sefydlu fel ffordd o weithio yng Nghymru. Dros gyfnod datganoli, mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn ffordd sylfaenol Gymreig o wneud pethau. Ein huchelgais nawr yw adeiladu ar lwyddiannau presennol partneriaeth gymdeithasol i greu system gryfach sy'n fwy cydgysylltiedig, gan ddeddfu i gael Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (wedi'i gadeirio gan y Prif Weinidog gydag arweinyddiaeth ar draws sectorau a chynrychiolaeth o undebau llafur) ochr yn ochr â threfniadau partneriaeth gymdeithasol wedi'u ffurfioli ar draws ein cyrff cyhoeddus.

Mae parhau â'n gwaith i sicrhau bod Cymru'n wlad o waith teg yn brif flaenoriaeth. Mae'r Bil drafft yn ceisio adeiladu ar waith y Comisiwn Gwaith Teg drwy ddefnyddio'r dulliau gweithredu yn ein cymhwysedd deddfwriaethol i fwrw ymlaen â'i argymhellion. Mae'r Bil drafft yn nodi darpariaethau i sefydlu system o amcanion gwaith teg y gall Gweinidogion Cymru eu defnyddio i sicrhau dull tryloyw a chyson o ddarparu cyflogaeth dda a diogel yng Nghymru, gan weithio gydag undebau llafur a chyflogwyr sy'n bartneriaid cymdeithasol i ni.

Mae'r Bil drafft hefyd yn nodi mesurau i sicrhau bod caffael cyhoeddus yn cael ei wneud gan ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, ac i ddarparu mwy o dryloywder ac eglurder drwy sefydlu amcanion caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol o ran egwyddor ac ymarfer, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn elfen ganolog o'n hymrwymiad hirsefydlog i ddefnyddio pŵer pwrs y wlad i sicrhau buddion ehangach i'n cymunedau, ein gweithleoedd a'n gwlad.

Mae'r Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl a gwasanaethau cyhoeddus, i weithleoedd, ac i Gymru. Rydym yn edrych ymlaen at yr ymgynghoriad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus drafft, ac at barhau i weithio gyda'n gilydd drwy'r ymgynghoriad i ddatblygu'r Bil drafft.

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cynnwys

1. Diffiniadau allweddol 5
2. Crynodeb gweithredol 7
3. Cyd-destun 9
   - Partneriaeth gymdeithasol 9
   - Gwaith teg 9
   - Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol 11
4. Pam mae angen y Bil 14
   - Heriau cymdeithasol ac economaidd 14
   - Heriau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus 16
   - Yr achos o blaid newid: Partneriaeth gymdeithasol 17
   - Yr achos o blaid newid: Gwaith teg 18
   - Yr achos o blaid newid: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol 19
   - Cwestiynau’r ymgynghoriad 20
5. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol 21
      - Trosolwg 21
      - Cwmpas 21
      - Gofynion y ddyletswydd 22
      - Cwestiynau’r ymgynghoriad 23
6. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg 24
   - Trosolwg 24
   - Diffinio gwaith teg mewn cyd-destun gwaith teg 24
   - Pwerau deddfu datganoledig 25
   - Cynrychiolaeth o'r prosesau ar gyfer amcanion gwaith teg 27
   - Cwestiynau’r ymgynghoriad 28

7. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol 29

- Trosolwg 29
- Cyrff o fewn y cwmpas 29
- Dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol 32
- Dyletswyddau rheoli contractau 33
- Cynrychiolaeth o'r cylch caffael cymdeithasol gyfrifol 36
- Cwestiynau’r ymgynghoriad 37

8. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol 38

  - Trosolwg 38
  - Strwythur arfaethedig 39
  - Nodweddion aelodaeth 40
  - Aelodau o Lywodraeth Cymru 40
  - Aelodau o sefydliadau sy’n cyflogi 40
  - Aelodau o undebau llafur 42
  - Gweithrediadau 42
  - Is-grwpiau 43
  - System partneriaeth gymdeithasol 43
  - Cynrychiolaeth o'r system partneriaeth gymdeithasol 45
  - Cwestiynau’r ymgynghoriad 46

9. Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd 47

- Rhan A: Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg 47
  - Cwestiynau’r ymgynghoriad 48
- Rhan B: Caffael cymdeithasol gyfrifol 49
  - Cwestiynau’r ymgynghoriad 50

10. Cydraddoldeb ac effeithiau 51

- Cydraddoldeb 51
- Asesiad Effaith Rheoleiddiol 51
- Safonau'r Gymraeg 51
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 52
- Cwestiynau’r ymgynghoriad 53

11. Y camau nesaf 54

Atodiad: Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad 55

1. Diffiniadau allweddol

Partneriaeth gymdeithasol

Mae partneriaeth gymdeithasol yn broses gyfranogol pryd mae partneriaid cymdeithasol yn cydweithredu ac yn datrys problemau ar y cyd mewn meysydd sydd o ddiddordeb i bawb. Mae dau brif fath o bartneriaeth gymdeithasol: dwyochrog a theirochrog.

Mewn partneriaeth gymdeithasol ddwyochrog, mae'r partneriaid cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliad(au) sy'n cyflogi a chynrychiolwyr o undeb(au) llafur cydnabyddedig. Mae gan lawer o sefydliadau drefniadau ar waith ar hyn o bryd lle gall eu huwch reolwyr ymgysylltu ag undeb(au) llafur cydnabyddedig ar faterion sy'n ymwneud â'u gweithlu, hyd yn oed os nad yw'r term 'partneriaeth gymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio.

Mewn partneriaeth gymdeithasol deirochrog, mae'r partneriaid cymdeithasol yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliad(au) sy'n cyflogi, cynrychiolwyr o undeb(au) llafur cydnabyddedig a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Gall trefniadau partneriaeth gymdeithasol deirochrog fodoli ar lefelau sector, rhanbarth a chenedlaethol.

Yn yr holl drefniadau partneriaeth gymdeithasol, mae partneriaid cymdeithasol yn gweithio mewn ysbryd cydweithredol, gan gydnabod a pharchu buddiannau ei gilydd er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bawb mewn ffordd sy'n cydnabod gwerth a llesiant aelodau'r gweithlu a'u cyfraniad at gyflawni nodau'r sefydliad sy'n eu cyflogi a chymdeithas yn ehangach. Mae partneriaid cymdeithasol yn mynd ati ar y cyd i fabwysiadu a glynu wrth egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, sef 'cydweithredu', 'parch', 'ymddiriedaeth', 'llais a chyfranogiad', a 'buddiannau ei gilydd.

Mae Fforwm Partneriaeth GIG Cymru yn enghraifft o bartneriaeth gymdeithasol ar waith. Mae trefniant y bartneriaeth gymdeithasol deirochrog yn y sector iechyd yn dod ag uwch reolwyr GIG Cymru, undebau llafur gofal iechyd cydnabyddedig ar gyfer GIG Cymru, a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru at ei gilydd.

Gwaith teg

Yn unol â'r diffiniad yn yr adroddiad Gwaith Teg yng Nghymru (2019), ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu camu ymlaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Mae'r Comisiwn Gwaith Teg wedi nodi chwe phrif nodwedd gwaith teg:

- Gwobrwyo teg;
- Llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth;
- Sicrwydd a hyblygrwydd;
- Cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen;
- Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol;
- Mae hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu a'u gwireddu.

Mae cynhwysiant, cydraddoldeb a pharchu hawliau dynol yn hollbwysig yn yr holl nodweddion uchod.

Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Ystyr caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yw cymryd camau gweithredu – wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith – i gyflawni'r nodau llesiant a'r nod gwaith teg newydd a ddisgrifir isod, er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'n rhaid ystyried y materion hyn ymhob rhan o'r prosesau caffael a rheoli contractau.

2. Crynodeb gweithredol

1. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft (‘y Bil drafft’) a pholisi ehangach sy’n ymwneud â meysydd pwnc y Bil drafft. Mae’r ddogfen ymgynghori hon wedi cael ei chyhoeddi ynghyd â’r Bil drafft ei hun a’i Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r mesurau a nodir yn y Bil drafft, cwestiynau polisi ehangach, a chynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

2. Mae'r Bil drafft wedi’i ddatblygu ynghyd ag arbenigwyr o fudiad undebau llafur Cymru, y gymuned fusnes yng Nghymru, a sefydliadau’r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, a’i fwriad yw cyflawni’r canlynol:

    a. Cryfhau a hyrwyddo cysondeb yn system partneriaeth gymdeithasol Cymru. Mae’r Bil drafft yn sefydlu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar gyfer cyrff cyhoeddus o fewn y cwmpas i ymgynghori â’u hundeb(au) llafur cydnabyddedig wrth ymarfer swyddogaethau penodol sy’n ymwneud â’u nodau llesiant. Mae’r Bil drafft yn nodi darpariaethau pellach i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol wedi’i gadeirio gan y Prif Weinidog. Bwriad y Cyngor Partneriaeth Gyhoeddus yw darparu arweinyddiaeth i’r system partneriaeth gymdeithasol, ac i gysylltu trefniadau partneriaeth gymdeithasol ar lefelau lleol, sectorol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru.

    b. Gwneud y gorau o gyfraniad Gweinidogion Cymru at gyflawni gwaith teg drwy’r nodau a’r amcanion gwaith teg. Mae'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion gwaith teg mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol; i gymryd camau i gyflawni’r amcanion hynny; ac i adrodd yn ôl yn flynyddol ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud a faint o gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd yr amcanion hynny. Bwriad y broses o bennu amcanion, cymryd camau ac adrodd ar gynnydd yw gwneud y gorau o gyfraniad Gweinidogion Cymru at y nod gwaith teg fel rhan o weledigaeth ehangach i wneud Cymru’n ‘genedl gwaith teg’.

    c. Cyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae’r Bil drafft yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i sicrhau, wrth gaffael, fod llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, yn ogystal â gwaith teg, yn cael eu hystyried. Mae dyletswyddau pellach wedi’u gosod ynglŷn â thryloywder a rheoli contractau. Mae’r mesurau a amlinellir yn y Bil drafft yn ceisio defnyddio pŵer pwrs y wlad i gyflawni canlyniadau sydd o fudd i gymdeithas.

3. Drwy’r mesurau a amlinellir uchod ynghylch partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol, mae gan y Bil drafft y ddau ddiben trawsbynciol canlynol:

a. Gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwneud y broses gwneud penderfyniadau yng Nghymru yn fwy cadarn ac effeithiol drwy system partneriaeth gymdeithasol gryfach a mwy cyson y mae gwaith teg yn greiddiol iddi, ac sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus arloesol a rhagorol

b. Gwella llesiant, yn enwedig llesiant economaidd a chymdeithasol, yng Nghymru, drwy sicrhau bod llais a buddiannau gweithwyr yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau; drwy gyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd; drwy ddarparu canlyniadau gwaith teg; a drwy sicrhau bod llesiant yn ystyriaeth allweddol mewn caffael cyhoeddus.

4. Mae'r Bil drafft wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r cynigion a nodir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol*, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gymdeithasol ac a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019 i lunio deddfwriaeth er mwyn gwneud trefniadau partneriaeth gymdeithasol statudol yng Nghymru i hybu cydraddoldeb cymdeithasol ac adeiladu ar egwyddorion partneriaeth a chydweithio.[1]

5. Wrth geisio cyflawni canlyniadau gwaith teg, mae'r Bil drafft yn llunio rhan allweddol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r canfyddiadau a amlinellir yn adroddiad *Gwaith Teg Cymru* (2019). Mae'r Bil drafft yn cyflawni argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg i roi sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol drwy ddatblygu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol.[2]

6. Er y bwriedir i'r Bil drafft fod yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun, mae'r nod o wella llesiant, yn enwedig llesiant cymdeithasol ac economaidd yn cefnogi cyflawniad mewn rhai meysydd o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[3]

---

[1] Llywodraeth Cymru, Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru, 2019, <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-12/atgyfnerthu-partneriaeth-gymdeithasol-dogfen-ymgynghori.pdf> [Cyrchwyd 03 Chwefror 2021]

[2] Argymhelliad 10. Y Comisiwn Gwaith Teg, Gwaith Teg Cymru: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (Llywodraeth Cymru, 2019) [Cyrchwyd 28 Ionawr 2021], tt. 3-4.

[3] Dyma'r nodau llesiant: 'Cymru lewyrchus', 'Cymru gydnerth', 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal', 'Cymru o gymunedau cydlynus', 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

3. Cyd-destun

Partneriaeth gymdeithasol

7. Cafodd partneriaeth gymdeithasol ei sefydlu yn Awstria ar ôl y rhyfel, ac mae bellach yn chwarae rhan ganolog mewn gwahanol systemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ledled y byd. Mae partneriaeth gymdeithasol yn arbennig o gyffredin yn Ewrop. Mae mathau rhyngwladol o bartneriaeth gymdeithasol yn bodoli, rhai statudol a rhai anstatudol, ac mae modelau amrywiol o gydweithio rhwng sefydliadau cyflogwyr, undebau llafur a sefydliadau proffesiynol. Nid bwriad Llywodraeth Cymru yw mabwysiadu model partneriaeth gymdeithasol penodol, ond yn hytrach adeiladu ar ein model ein hunain sydd wedi dod i'r amlwg ac esblygu ers datganoli yn 1999.

8. Yng Nghymru, mae llawer o drefniadau partneriaeth gymdeithasol wedi'u sefydlu rhwng sefydliadau unigol, grwpiau sy'n cynrychioli'r sector cyfan ac undebau llafur cydnabyddedig yng Nghymru, rhai ohonynt yn bodoli ers cyn datganoli a phob un ohonynt yn cyfrannu at bartneriaeth gymdeithasol, sy'n arfer gyffredin a chyfunol. Nid yw'r Bil drafft hwn yn cynnig disodli trefniadau sy'n bodoli eisoes; yn hytrach, mae'n cynnig eu cryfhau a hyrwyddo cysondeb.

9. Mae trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig. Nid oes fframwaith cyffredin yn sail iddynt ar hyn o bryd, ac nid ydynt wedi'u cydlynu i gael yr effaith orau bosibl.

10. Mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn bodoli ar lefel genedlaethol ar draws y sector cyhoeddus drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu. Mae trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol fesul sector ar gael ym meysydd iechyd, addysg a llywodraeth leol, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a chyrff a noddir. O ran sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a chyflogwyr, undebau llafur a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli, mae'r Cynllun ar gyfer Busnes sydd gan Weinidogion Cymru yn darparu trefniadau ar wahân drwy Gyngor Datblygu'r Economi a'r Grŵp Strategaeth Partneriaid Cymdeithasol.

Gwaith teg

11. Mae gwaith teg – sef pryd bydd gweithwyr yn ddiogel ac yn gallu camu ymlaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle cânt eu cyd-glywed a'u cynrychioli; lle ceir gwobrwyo teg, a lle mae hawliau'n cael eu parchu – yn gysyniad sy'n berthnasol i fywydau miliynau o bobl yng Nghymru. Mae gwaith teg yn bwysig er mwyn cyfrannu at y canlynol:

    a. Gwella iechyd meddyliol a chorfforol.

    b. Sicrhau amgylchedd gwaith diogel.

    c. Lleihau anghydraddoldeb ac ehangu mynediad at gyflogaeth.

d. Lleihau tlodi a sicrhau gwobrwyo teg.

e. Cynyddu cyfranogiad yn y gweithle a'r gymuned.

f. Gwella pa mor hyblyg, cynhyrchiol ac effeithlon yw darpariaeth gwasanaethau.

g. Gwella mynediad at hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau eraill, a sicrhau bod gan weithwyr gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd.

h. Gwella economïau lleol a rhanbarthol

i. Sicrhau economi gryfach sy'n fwy modern a chynhwysol.

12. Ym mis Mawrth 2017, cyflwynodd Carwyn Jones AC, sef y Prif Weinidog ar y pryd, weledigaeth o wneud Cymru'n 'wlad o waith teg', yn gymdeithas fwy cyfartal, teg a chyfiawn, gyda swyddi ac economi Cymru yn ganolog i'r weledigaeth hon.[4] Ym mis Gorffennaf 2018, yn dilyn gwaith sylweddol a gwblhawyd mewn partneriaeth gymdeithasol drwy'r Bwrdd Gwaith Teg teirochrog, fe wnaeth ef benodi'r Athro Linda Dickens i gadeirio Comisiwn Gwaith Teg annibynnol. Cafodd y Comisiwn Gwaith Teg y dasg o wneud argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru.

13. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg ei ganfyddiadau yn yr adroddiad *Gwaith Teg yng Nghymru*. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn yn llawn y chwe argymhelliad a oedd y flaenoriaeth gan y Comisiwn Gwaith Teg, a derbyn y 42 argymhelliad arall mewn egwyddor.[5]

14. Mae gwaith wedi dechrau cael ei wneud ar agweddau amrywiol ar yr adroddiad *Gwaith Teg yng Nghymru*, sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio o fewn paramedrau cymhwysedd deddfwriaethol a galluoedd anneddfwriaethol, gan gynnwys:

    a. Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau drwy lansio Ymgyrch Hawliau a Chyfrifoldebau'r Gweithlu.

    b. Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru o ran cyfraith cyflogaeth neilltuedig.

    c. Creu'r Fforwm Iechyd a Diogelwch cenedlaethol, sy'n ceisio gwella'r ffordd o ymdrin ag iechyd a diogelwch yn y gwaith yng Nghymru. Mae'r Fforwm Iechyd a Diogelwch yn dod â sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr, TUC Cymru a chyrff gorfodi at ei gilydd.

---

[4] Martin Shipton, Carwyn Jones to tell Welsh Labour members he wants to create a 'fair work nation', Wales Online, 25 Mawrth 2017 [Cyrchwyd 28 Ionawr 2021].
[5] Y chwe argymhelliad sy'n flaenoriaeth yw argymhellion 1, 2, 10b, 26, 35, 42. Gwaith Teg Cymru, tt. 2, 4, 6, 9.

d. Creu’r Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol, sy’n ceisio gwella amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol.

e. Datblygu cyfres o fesurau canlyniadau wedi’u mapio yn ôl y chwe nodwedd gwaith teg. Bydd y mesurau hyn yn helpu i feincnodi ein sefyllfa bresennol, yn ein helpu i olrhain y cynnydd dros amser, ac yn helpu i lywio datblygiad polisi yn y dyfodol.

f. Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i hyrwyddo canlyniadau gwaith teg ar draws economi Cymru – gan ddefnyddio ysgogiadau fel y Contract Economaidd a’r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

15. Mae dros £6.7bn o arian cyhoeddus yn cael ei wario ar gaffael a chomisiynu yng Nghymru bob blwyddyn.[6] Erbyn hyn, mae 52% yn cael ei wario drwy gyflenwyr yng Nghymru, sy’n gynnydd cyson dros y 15 mlynedd diwethaf.

16. Mae’r egwyddor fod y ffordd y caiff cyllid ei wario yn gallu cael effaith eang yn egwyddor sydd wedi’i hen sefydlu. Mae gan Gymru fecanweithiau anstatudol sydd wedi'u sefydlu’n dda ar gyfer sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu cyflawni drwy gaffael. Un o’r prif arfau polisi yw’r pecyn Manteision Cymunedol. Cafodd y pecyn ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2010 a’i ddiweddaru wedyn yn 2014 i gynnwys offeryn mesur ac i gryfhau’r ffocws ar gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Cafodd hwn ei ddiweddaru eto yn 2020.

17. Mae’r dull Manteision Cymunedol yn ffordd o ymgorffori gofynion cymdeithasol yn y gwaith caffael er mwyn bod o fudd i’r cymunedau yn yr ardaloedd lle mae contractau’n cael eu darparu. Gofynnir i gynigwyr ddangos sut y byddant yn cyflawni blaenoriaethau’r cleient. Mae hyn yn dod yn rhan o'r contract os ydynt yn llwyddiannus Manteision Cymunedol yw prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddi a hyfforddiant drwy gaffael. Fel roedd pethau’n sefyll ddiwedd mis Mai 2020, roedd 698 o brosiectau, yn werth bron i £2.5bn, wedi defnyddio’r dull, gan gadw 82% o’r £2.5bn hwnnw yng Nghymru fel cyfuniad o refeniw i fusnesau a chyflogau, gan greu 2,911 o swyddi, 1,508 o brentisiaethau a 128,975 wythnos o hyfforddiant.

18. Mae polisi sy’n ymwneud â chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn cael ei ddatblygu a’i fireinio ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i gydgynhyrchu set o fesurau gwerth cymdeithasol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gellir defnyddio’r set i fesur caffael traddodiadol a buddsoddiadau ariannol eraill ac i adeiladu ar waith Manteision Cymunedol. Yr

[6] Dadansoddiad o wariant ar gaffael, 2018 i 2019. Llywodraeth Cymru, WPPN 01/20 Cymalau gwerth cymdeithasol/manteision cymunedol drwy gaffael cyhoeddus, Llywodraeth Cymru (2020) [Cyrchwyd 28 Ionawr 2021].

uchelgais yw dod o hyd i ffordd o gofnodi ac adrodd manteision cyllid cyhoeddus yng Nghymru o ran gwerth cymdeithasol sy'n cyd-fynd yn agos â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

19. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru diwygiedig hefyd yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu ac adeiladu ar y perthnasoedd a'r trefniadau gwaith newydd sydd wedi cael eu sefydlu gyda chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r datganiad diwygiedig yn gyfle i ddiweddaru Datganiad Polisi Caffael Cymru er mwyn adlewyrchu'r nodau llesiant yn well ac er mwyn mynd i'r afael â'r tensiynau ymddangosiadol neu wirioneddol sy'n bodoli rhwng y costau isaf a sicrhau canlyniadau ehangach. Bydd Datganiad Polisi Caffael Cymru, wedi'i ddiweddaru, yn cael ei lansio yn hanner cyntaf 2021.

20. Mae gwaith teg wedi bod yn flaenoriaeth polisi ar gyfer caffael cyhoeddus ers sawl blwyddyn, a chyhoeddwyd Nodyn Cyngor Caffael ar gosbrestru yn y diwydiant adeiladu, a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn 2017.[7] Mae'r rhain yn nodi sut y dylid defnyddio ysgogiadau caffael a rheoli contractau i wneud yn siŵr nad yw arferion anghyfreithlon ac annheg, megis cosbrestru gweithwyr undebol, hunangyflogaeth ffug a defnydd annheg o gynlluniau cyflogaeth ambarél a chontractau dim oriau, yn cael eu goddef mewn cadwyni cyflenwi sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus.

21. Cafodd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ei ddatblygu mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae ei 12 ymrwymiad yn cynnwys cyhoeddi polisïau a datganiad yn erbyn caethwasiaeth, hyfforddi staff, cynnal asesiadau risg ar gategorïau gwariant, gwneud yn siŵr nad oes arferion cyflogi anghyfreithlon ac anfoesegol yn bodoli mewn cadwyni cyflenwi, a mynnu bod sefydliadau yn ystyried talu mwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff. Fodd bynnag, mae'r Cod yn wirfoddol, ac fel arfer nid yw ymrwymo yn un o amodau derbyn grant neu gontract, er bod mudiadau sy'n derbyn arian cyhoeddus yn eu hannog i ymrwymo. Ar hyn o bryd mae gan y Cod ychydig dros 300 o lofnodion, tua chwarter ohonynt yn gyrff cyhoeddus, sef cyfran fach o'r sefydliadau a allai ymrwymo

22. Yn 2019, fe wnaeth yr adroddiad *Gwaith Teg yng Nghymru* argymell y dylid ymestyn cynnwys y Cod i gwmpasu ei ddiffiniad ehangach o waith teg ac y dylai fod yn orfodol i'r rheini sy'n derbyn arian cyhoeddus.[8]

23. Mae cryfhau'r economi sylfaenol yng Nghymru yn flaenoriaeth drawslywodraethol, ac mae ymrwymiad cynyddol i ddefnyddio gwariant y sector cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi yng Nghymru pan fo hynny'n bosibl. Mae caffael yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn ennill cymaint â phosib o fusnes er mwyn cryfhau'r economi a chynnal a chreu cyflogaeth. Mae Cronfa Her yn cefnogi gwaith i sbarduno arloesedd ac i ymgysylltu â mudiadau angor cyhoeddus a phreifat

[7] Cod Ymarfer: Cosbrestru yn y Diwydiant Adeiladu – Nodyn Cyngor Polisi ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru; Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, Llywodraeth Cymru (2017) [Cyrchwyd 28 Ionawr 2021].
[8] Argymhellion 21 a 22. Gwaith Teg Cymru, t. 6.

lleol i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio eu gwariant i gynyddu cyfoeth lleol yn eu rhanbarthau.

24. Cyhoeddwyd Cod y Gweithlu Dwy-Haen diwygiedig yn 2014 ac mae wedi'i lunio i roi sicrwydd i weithwyr pan gaiff gwasanaethau eu rhoi ar gontract i drydydd parti. Mae'n mynnu bod ymarferion contractio yn cael eu cynnal ar y sail bod Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE") yn berthnasol i'r holl staff sy'n trosglwyddo, oni bai fod rhesymau gwirioneddol eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Mae'r Cod hefyd yn mynnu bod gweithwyr newydd sy'n ymuno â gwasanaeth a roddwyd ar gontract hwythau yn cael eu cyflogi ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol i staff sydd wedi'u trosglwyddo, ac eithrio trefniadau pensiwn pan fo raid gwneud darpariaeth pensiwn resymol fel y nodir yn y Cod.

25. Mae'r Cod yn elfen bwysig o ddull y Llywodraeth o sicrhau gwaith teg. Mae'n cynnwys canllawiau caffael, telerau contract enghreifftiol, a phroses amgen o ddatrys anghydfodau, gyda disgwyl i undebau llafur cydnabyddedig gymryd rhan yn y trafodaethau. Disgwylir hefyd i ddarparwyr gwasanaethau ymestyn y gofynion i is-gontractwyr os oes angen. Cynhwysir trefniadau monitro hefyd, gyda disgwyliad y bydd darparwyr gwasanaethau yn darparu gwybodaeth i'r corff cyhoeddus pan ofynnir iddynt, er mwyn gallu monitro cydymffurfiaeth. Mae'n ofynnol hefyd i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch y trefniadau allanoli contractau y maent wedi ymrwymo iddynt yn y flwyddyn flaenorol, ac a ddilynwyd darpariaethau'r Cod ai peidio.

4. Pam mae angen y Bil

Heriau cymdeithasol ac economaidd

26. Mae Llywodraeth Cymru eisiau economi gref, gydnerth ac amrywiol sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru ac sy'n cynyddu cyfoeth a llesiant drwy ddosbarthu manteision twf economaidd yn decach.

27. Mae gan Gymru arbenigedd o'r radd flaenaf mewn amrywiaeth eang o feysydd, ac mae hynny'n cael ei gefnogi gan rai o'r prifysgolion o ansawdd uchel a'r colegau gorau yn y DU. Fodd bynnag, mae heriau economaidd allweddol sy'n wynebu economi gref, gydnerth ac amrywiol sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:

    a. Dad-ddiwydiannu;

    b. Diffyg amrywiaeth o ran sectorau a galwedigaethau;

    c. Anweithgarwch economaidd;

    d. Cyflogaeth ansefydlog ac ansicr;

    e. Mynediad anghyfartal at gyflogaeth;

    f. Tlodi mewn gwaith;

    g. Lefelau cynhyrchu a buddsoddi ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU;

    h. Cyflymu newid technolegol;

    i. Arloesedd yn ymledu'n araf;

    j. Cyfraddau anhwylder a salwch mewn gwaith;

    k. Yr heriau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio.[9]

28. Mae'n hanfodol goresgyn yr heriau hyn er mwyn cyflawni nodau llesiant y Llywodraeth, sy'n amrywio o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hybu gwaith teg, i hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb.

29. Mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r heriau hyn. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddigynsail ar incwm a swyddi pobl.[10] Mae wedi effeithio ar economïau cenedlaethol y tu hwnt i hynny.[11] Mae mesurau wedi cael eu rhoi ar

---

[9] Mae disgrifiad manylach o rai o'r heriau hyn ar gael yn Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Llywodraeth Cymru (2017) [Cyrchwyd 28 Ionawr 2021].
[10] Sefydliad Bevan, Coronavirus and Fair Work, Sefydliad Bevan (2020) [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].
[11] Gweler A. Podvršič ac eraill, Mitigating the COVID-19 effect: Emergency Economic Policy-making in Central Europe, Sefydliad Undebau Llafur Ewrop (2020); Y Sefydliad

waith i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws, fel cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar gwrdd â phobl, sydd wedi golygu bod y ffordd rydym yn gweithio wedi newid yn sylweddol. Mae COVID-19 wedi cael effaith anghymesur a negyddol ar grwpiau cymdeithasol sydd eisoes wedi'u hymyleiddio, gan gynnwys pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau,[12] menywod,[13] pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig,[14] pobl ifanc[15] a phobl hŷn.[16]

30. Mae effaith wahaniaethol COVID-19 ar wahanol grwpiau o'r gweithlu wedi achosi i'r ffocws symud ar y rheini sy'n gallu cael eu gadael ar ôl yn hawdd, ac sydd, er gwaethaf amodau gwaith bregus yn aml, wedi profi i fod yn asgwrn cefn economi Cymru a'r ymateb i'r pandemig. Mae tystiolaeth yn dangos bod pen isaf y farchnad lafur yn aml yn dal pobl mewn swyddi ansicr ar gyflog isel, heb gyfleoedd i symud i fyny.[17] Wrth i ni droi ein sylw at adfer a bywyd ar ôl y pandemig, mae'n bwysig nad ydym yn anghofio'r gwersi rydym wedi'u dysgu, a'n bod yn cynnal egwyddorion gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol wrth gynllunio at y dyfodol.

31. Mewn perthynas â'r uchod, mae'r heriau cymdeithasol ac economaidd sydd wedi deillio o COVID-19 yn cyflwyno heriau unigryw i waith teg. Gyda'r dirwasgiad economaidd ac anghydraddoldeb yn gwaethygu, mae hyn yn herio gallu cyflogwyr i wobrwyo eu staff,[18] eu gallu i gadw staff,[19] ac mae'n peryglu

---

ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), Policy Brief: Policy Responses to the Covid-19 Crisis, OECD (2020); E. Duffin, Impact of the Coronavirus Pandemic on the Global Economy – Statistics & Facts, 21 Medi, Statista. [cyrchwyd 29 Hydref 2020].

[12] Gweler, er enghraifft, Wales TUC Cymru, Gweithwyr Anabl yng Nghymru a Covid-19, Wales TUC Cymru (2020) [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021]; Inclusion London, Abandoned, Forgotten and Ignored: The Impact of the Coronavirus Pandemic on Disabled People (Interim Report), Inclusion London (2020) [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].

[13] Gweler, er enghraifft, C. Rivera, Y. Hsu, F. P. Esbry ac E. Dugarova, Gender Inequality and the COVID-19 Crisis: A Human Development Perspective, Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig [Cyrchwyd 30 Hydref 2020].

[14] Gweler, er enghraifft, M. Loubaba and T. Jones, The Impact of COVID-19 on Black, Asian and Minority Ethnic Communities, The National Institute for Health Research Applied Research Collaboration West a Phrifysgol Bryste, 2020.

[15] Gweler, er enghraifft, C. Leavey, A. Eastaugh ac M. Kane, Generation COVID-19: Building the Case to Protect Young People's Future Health, The Health Foundation, 2020 [Cyrchwyd 30 Hydref 2020].

[16] Gweler, er enghraifft, A.L. Mueller, M.S. McNamara, a D.A. Sinclair, 'Why does COVID-19 disproportionately affect older people?' Aging, 12 (10), 2020.

[17] Josh Stott, What is inclusive growth and why does it matter?, Sefydliad Joseph Rowntree, 12 Ionawr 2017 [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].

[18] OECD, Social Economy and the COVID-19 Crisis: Current and Future Roles, OECD Publishing, 2020.

[19] The Global Deal, Social Partnerships in the Time of the Covid-19 Pandemic, The Global Deal, 2020 [cyrchwyd 27 Hydref 2020].

nifer y swyddi a'u hansawdd.[20] Mae cyd-gynrychiolaeth a llais y cyflogai yn gallu cael eu tanseilio pan fydd cyfraddau diweithdra a cholli swyddi yn codi.[21] Mae cynnig sicrwydd, hyblygrwydd a chyfleoedd ar gyfer twf i weithwyr yn dod yn anoddach i lawer o gyflogwyr pan fyddant yn wynebu heriau economaidd difrifol. Mae'r holl ffactorau hyn yn ganolog i lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn gyffredinol, ac maent yn dylanwadu ac yn effeithio ar ffocws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r gwaith bob dydd o'u darparu.

32. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n bwysig bod gennym strwythurau cadarn ac addas i'r diben ar waith sy'n galluogi'r Llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol ar amcanion a rennir, gyda dealltwriaeth o gyfleoedd a chyfyngiadau. Mae'n hanfodol cael agenda ar y cyd, a ffocws ar gyfer ymgysylltu a gweithgarwch.

Heriau o ran gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus

33. Ers 2020 mae darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu heriau eithriadol o ganlyniad i COVID-19. Mae gweithwyr a gyflogir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi gweithio dan amgylchiadau eithriadol o anodd i amddiffyn iechyd, addysg, llesiant a diogelwch pobl yng Nghymru. Ar yr un pryd, mae'r pandemig wedi dangos pa mor ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus effeithiol ydym ni.

34. Mae'n bwysig bod gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i allu gweithio mewn amgylchedd teg, diogel, iach a chynhwysol, eu bod yn cael eu gwobrwyo'n deg, bod eu hawliau'n cael eu parchu, bod eu llais yn cael ei glywed drwy gydgynrychiolaeth, a'u bod yn cael cyfle i wneud cynnydd a datblygu'n broffesiynol.

35. Bwriad y mesurau a nodir yn y Bil drafft yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cael eu darparu a'u gwella ar sail cynaliadwy a hirdymor, gan gydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod y rheini sy'n gwneud cymaint dros ein cymdeithas yn cael eu cyflogi yn unol â nodweddion gwaith teg.

36. Mae'r heriau sydd wedi deillio o COVID-19 wedi dangos bod angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn arloesol ac yn ystwyth, gan sicrhau bod dyluniad gwasanaethau yn gallu esblygu a gwella yn unol â newidiadau cymdeithasol cyflym sy'n cyflwyno heriau a blaenoriaethau newydd. Mae pwysigrwydd partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei ddangos drwy effaith gadarnhaol trefniadau partneriaeth gymdeithasol o ran dod â chymdeithas sifil at ei gilydd i ymateb ar y cyd ac yn gydweithredol drwy gydol y cyfnod hwn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru, y Fforwm Iechyd

[20] Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, COVID-19 and the World of Work: Impact and Policy Responses, Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, 2020.
[21] Gweler Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Y DU: Hydref 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020.

a Diogelwch yn ceisio diogelu a gwella iechyd a diogelwch gweithwyr, a gwaith y trefniadau partneriaeth gymdeithasol sydd wedi digwydd yn gydamserol drwy gydol y cyfnod hwn, ar lefel sectorau ac ar lefel leol.

Yr achos o blaid newid: Partneriaeth gymdeithasol

37. Mae partneriaeth gymdeithasol sy'n cynnwys undebau llafur yn bwysig o ran:

    a. Dod o hyd i gyfleoedd;

    b. Datrys gwrthdaro;

    c. Cyrraedd consensws a'i atgyfnerthu;

    d. Gwella ansawdd gwybodaeth a gwneud penderfyniadau;

    e. Helpu i roi penderfyniadau ar waith a glynu wrthynt;

    f. Mynd i'r afael ag anghyfiawnder, annhegwch ac anghydraddoldeb.[22]

38. Mae amryw o ffactorau cymdeithasol, economaidd, hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol yn benodol i Gymru ac yn ffafriol i bartneriaeth gymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

    a. Traddodiad cryf o ysbryd cydweithredu yng Nghymru, a nodweddir gan undod cymunedol, cyd-berchnogaeth o broblemau, ac ymrwymiad ar y cyd i atebion ar y cyd.

    b. Bodolaeth nifer o strwythurau a threfniadau partneriaeth gymdeithasol hirsefydlog rhwng sefydliadau unigol, grwpiau sy'n cynrychioli'r sector, ac undebau llafur, gan gynnwys rhai a oedd yn bodoli ers cyn datganoli.

    c. Ymrwymiad cryf y naill Lywodraeth ar ôl y llall yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac i ddatblygu economi Cymru.

    d. Cyfradd uwch yng Nghymru o aelodaeth o undebau llafur a darpariaeth gydfargeinio, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.

39. Yn ystod pandemig COVID-19, mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus yng Nghymru a ledled y byd i lunio ymatebion cenedlaethol. Fe wnaeth Sefydliad Undebau Llafur Ewrop ddadansoddi ymatebion amryw o lywodraethau cenedlaethol i'r pandemig, ac fe welodd fod llunio polisïau mewn modd cynhwysol, a rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion

[22] P. Findlay, C. Lindsay, A. Watson, D. Young, Influencing Employers So More People Break Free From Poverty Through Work, Sefydliad Joseph Rowntree, 2019 [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].

gweithwyr, yn gysylltiedig â systemau gwleidyddol sy'n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn fwy helaeth.[23]

40. Mae COVID-19 hefyd wedi amlygu bod angen i bartneriaeth gymdeithasol fod yn gynaliadwy a chael effaith sylweddol yn y tymor hir, yn ogystal â chael gweledigaeth strategol glir a chyson sy'n cysylltu partneriaeth gymdeithasol ar bob lefel a lle nad yw cyfranogi yn rhoi gormod o faich ar bartneriaid.

41. Fodd bynnag, nid oes un model partneriaeth gymdeithasol unigol yng Nghymru. Mae ein modelau partneriaeth gymdeithasol anstatudol yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol, ond hefyd yn cynnwys diffyg cysondeb o ran dulliau gweithredu a chyflenwi. Mae cyfyngiadau ar faint o newid all ddigwydd oni bai fod sail statudol i'r dull partneriaeth gymdeithasol. Rydym eisiau hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson, a chredwn y gellir cryfhau effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru

Yr achos o blaid newid: Gwaith teg

42. Mae tystiolaeth sylweddol yn dangos pa fanteision economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n deillio o waith teg. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth fod gwaith teg yn cynyddu cynhyrchiant ac yn cyflawni gwaith o ansawdd uwch, gan ddangos yn glir sut y gall gwaith teg wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.[24]

43. Mae model a ddatblygwyd gan Ganolfan Ymchwil Gyflogaeth yr Alban yn dangos beth yw rôl gwaith teg o ran sbarduno arloesedd a chynhyrchiant yn y gweithle, pan fo manteision y gwaith hwnnw'n cael eu rhannu gan gyflogwyr a gweithwyr.[25] Drwy weithredu arferion gwaith teg yn eang, mae potensial i gael twf economaidd cynhwysol.[26] Sail resymegol y model hwn yw bod arferion gwaith teg yn ysgogi gweithwyr i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau o ansawdd uchel, yn ogystal ag yn gwella creadigrwydd.[27]

44. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod cydberthyniad rhwng amodau gwaith teg a lefelau cynhyrchiant uwch.[28] Gall y cynnydd mewn cynhyrchiant fod o fudd i weithwyr a chyflogwyr o dan gydgytundebau. Yng nghyd-destun darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiad y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau hyn.

---

[23] Podvršič ac eraill, Mitigating the COVID-19 effect, 2020.
[24] Gweler, er enghraifft, G. Rogers a K. Richmond, Fair Work and Productivity, Sylwebaeth Economaidd y Fraser of Allander Institute, 2016 [Cyrchwyd 18 Tachwedd 2020].
[25] Y Confensiwn Gwaith Teg, Fair Work Framework 2016, Y Confensiwn Gwaith Teg, 2016 [Cyrchwyd 18 Tachwedd 2020].
[26] Ibid.
[27] Ibid.
[28] Rogers a Richmond, Fair Work and Productivity, 2016.

45. Gall sefydliadau sy'n gallu cynnig y cyfle i gamu ymlaen ddisgwyl manteision fel cronfa ehangach a chyfoethocach o dalent, effaith gadarnhaol ar recriwtio, cadw staff ac enw da, a dyrannu adnoddau'n fwy effeithlon.[29] Effeithiau hirdymor ac ehangach hyn yw cymdeithas fwy teg a chynhwysol lle gall pobl gyfrannu'n fwy effeithiol at eu cymuned a'u heconomi leol.[30]

46. Mae diogelwch yn y gwaith yn cynnig amrywiaeth o fanteision, gan gynnwys mwy o hyblygrwydd i fusnesau a gweithwyr a'r gallu iddynt ymaddasu, llai o angen am wariant cyhoeddus, a gwell iechyd a llesiant ymhob rhan o gymdeithas. Dangoswyd bod diogelwch mewn gwaith yn gysylltiedig hefyd â llai o dlodi ymhlith plant.[31]

47. Mae amgylchedd gwaith cynhwysol yn arbennig o bwysig i bobl sydd wedi cael eu heithrio o'r gweithle yn draddodiadol, er enghraifft, pobl anabl. Mae pobl anabl eisoes yn llai tebygol o ennill y Cyflog Byw Cenedlaethol na phobl nad ydynt yn anabl.[32] Maent hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael eu trin yn annheg yn y gwaith.[33] Effaith hirdymor hyn yw bod pobl anabl yn cael eu heithrio o'r farchnad lafur ac yn wynebu anfantais barhaus yn y farchnad lafur. Mae'r economi'n colli allan ar y sgiliau sydd gan bobl anabl i'w cynnig ac mae effeithiau negyddol hynny'n cynnwys cronfa dalent fwy cul, cyfraddau cadw staff gwael mewn busnesau, ac anghydraddoldeb cymdeithasol ehangach

48. Roedd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn nodi bod 'cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar gyflogaeth a thwf economaidd, ond nid ydynt yn gwneud y cysylltiadau â 'gwaith teg' yn eu hamcanion a'u camau.' Nodwyd ei bod yn 'drawiadol' mai Llywodraeth Cymru oedd yr unig gorff cyhoeddus yng Nghymru i gael amcan llesiant neu gam a oedd yn cyfeirio'n benodol at waith teg.

Yr achos o blaid newid: Caffael cymdeithasol gyfrifol

49. Mae cofnod helaeth o'r disgwyliadau o ran y cyfraniad y gall caffael ei wneud i amcanion polisi ehangach. Mae hwn yn faes lle mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd da, sydd wedi cefnogi ymateb cydweithredol cryf i'r heriau mae'r gadwyn gyflenwi wedi'u hwynebu yn ystod pandemig COVID-19.

50. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser, mae nifer o adolygiadau wedi amlygu y gellid gwneud gwelliannau. Dilynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru,

---

[29] Findlay, Lindsay, Watson, Young, Influencing Employers So More People Break Free From Poverty Through Work, 2019.
[30] Ibid.
[31] Ibid.
[32] Nick Coleman, Wendy Sykes, a Carola Groom, Barriers to Employment and Unfair Treatment at Work: A Quantitative Analysis of Disabled People's Experiences, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2013 [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].
[33] Ibid.

Caffael Cyhoeddus yng Nghymru yn 2017,[34] gan adolygiad pellach o waith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a Gwerth Cymru yn ystod yr un flwyddyn. Yn dilyn hynny, aeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ati i gynnal ymchwiliad i gaffael cyhoeddus yng Nghymru.[35] Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthi'n cynnal adolygiad, ac mae'r ymchwil cynnar ar ei gyfer wedi canfod materion tebyg.

51. Ymysg pethau eraill, mae'r adolygiadau hyn wedi canfod heriau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus o ran sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau caffael sy'n cystadlu â'i gilydd, ymateb i dechnoleg, deddfwriaeth a pholisi newydd, a recriwtio a chadw staff ym maes caffael. Awgrymwyd y dylid canolbwyntio mwy ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol a llai ar arbedion ariannol, a bod angen mwy o gymorth i sefydlu gofynion fel y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Nodwyd bod rheoli contractau a diwydrwydd dyladwy hefyd yn feysydd y mae angen eu gwella.

52. Mae cynnydd wedi cael ei wneud yn sgil yr adolygiadau hyn. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth yn rhoi cyfle i gymryd camau pellach ymlaen, ac yn benodol i roi mwy o eglurder ac i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

53. Ar hyn o bryd, mae caffael cyhoeddus uwchben rhai trothwyon yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar gyfer contractau consesiwn a chyfleustodau. Daw'r rheoliadau hyn o gyfraith yr UE, ac maent yn ymwneud yn bennaf â'r mecanweithiau ar gyfer eithrio cynigwyr mewn amgylchiadau penodol a sut y dylai gwaith caffael gael ei wneud rhwng yr hysbysebu a dyfarnu'r contract. Ymgynghorir yn Lloegr ar gynigion ar gyfer rheoliadau newydd i gymryd lle'r rhain. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n ddiweddar â rhanddeiliaid ynghylch diwygio caffael yng Nghymru. Er bod cysylltiadau a gorgyffwrdd rhwng yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y Bil drafft hwn ac yn y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, mae'r Bil drafft hwn yn canolbwyntio ar y materion ehangach o bennu strategaeth, mesur, adrodd, cydymffurfio a rheoli contractau.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid?

[34] Swyddfa Archwilio Cymru, Caffael Cyhoeddus yng Nghymru, 2017 [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].
[35] Senedd Cymru, Caffael Cyhoeddus [Cyrchwyd 01 Chwefror 2021].

5. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol

Trosolwg

54. Mae rhan 1 o'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd, o'r enw'r dyletswydd partneriaeth gymdeithasol, ar gyrff cyhoeddus i ymgynghori â'u hundeb(au) llafur cydnabyddedig, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant ac wrth wneud penderfyniadau strategol eu natur ynghylch y camau rhesymol y mae corff cyhoeddus yn eu cymryd, wrth weithredu ei swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

55. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r cyrff cyhoeddus a nodir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac y mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddynt yn y ddeddf. Mae'r Bil drafft a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhannu diben cyffredin o ran anelu at hyrwyddo llesiant a datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r diben cyffredin hwn wedi rhoi sail i'r penderfyniad i gysylltu'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol â'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

56. Drwy fynnu bod cyrff cyhoeddus yn cymryd rhan mewn partneriaeth gymdeithasol, y bwriad yw y bydd y ffordd hon o weithio yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant, gan gynnwys gwaith teg, a gwella cysondeb y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru yn enwedig.

Cwmpas

57. Mae'r cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), ac y mae felly'n fwriad iddynt fod yn rhan o gwmpas y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil, wedi'u rhestru isod. Gweler hefyd y tabl o gyrff a nodir yn adran 7 o'r ddogfen ymgynghori hon.

    a. Gweinidogion Cymru;

    b. Awdurdodau lleol;

    c. Byrddau Iechyd Lleol;

    d. Ymddiriedolaethau canlynol y GIG:

        (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;

        (ii) Ymddiriedolaeth GIG Felindre (gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru);

    e. Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

    f. Awdurdod tân ac achub yng Nghymru;

g. Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

h. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

i. Cyngor Celfyddydau Cymru;

j. Cyngor Chwaraeon Cymru;

k. Llyfrgell Genedlaethol Cymru;

l. Amgueddfa Cymru.

Gofynion y ddyletswydd

58. Dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus uchod i ymgynghori â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth gyflawni swyddogaethau penodol fel y disgrifir uchod yw'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae'r Bil drafft yn nodi bod rhaid i gyrff cyhoeddus sydd o fewn y cwmpas wneud y canlynol, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, wrth ymgynghori:

    a. Dechrau'r ymgynghoriad yn ystod cam ffurfiannol y broses o bennu amcanion a gwneud penderfyniadau;

    b. Anelu at gyfaddawd a chydsyniad.

59. Nid yw'r Bil drafft yn pennu sut bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal. Gwneir hyn i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus hyblygrwydd a'u bod yn gallu defnyddio fforymau a phrosesau sy'n bodoli eisoes i ymgynghori â'u hundeb(au) llafur cydnabyddedig. Fodd bynnag, rhagwelir mai dim ond drwy gyfarfodydd, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell, y bydd yr ymgynghori hwn yn digwydd, yn hytrach na drwy gyfathrebu'n ysgrifenedig yn unig.

60. Bwriedir i'r cyrff cyhoeddus sicrhau bod eu hymgynghoriad â'u hundeb(au) llafur cydnabyddedig yn cychwyn yn gynnar, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud, a bod y ddau barti'n glynu wrth yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol canlynol (nad ydynt yn ymddangos ar wyneb y Bil drafft ond y bwriedir eu nodi yn y Canllawiau):

    a. Cydweithrediad: Ymrwymiad ar y cyd i lwyddo drwy ddatrys problemau ar y cyd, cyfaddawdu a dod i gytundeb.

    b. Parch: Ymrwymiad ar y cyd i gydnabod unrhyw achosion sicr neu bosibl o wrthdaro rhwng buddiannau.

    c. Ymddiriedaeth: Ymrwymiad ar y cyd i seilio perthnasoedd ar onestrwydd, dilysrwydd, tryloywder a bod yn agored ac yn anhunanol.

d. Llais a Chyfranogiad: Ymrwymiad ar y cyd i fynd ati'n rhagweithiol ac amserol i rannu gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu.
e. Buddion Cyffredin: Ymrwymiad ar y cyd i gyflawni gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus, llesiant cymdeithasol ac economaidd, a chanlyniadau gwaith teg.

61. Mae'r Bil drafft yn nodi bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus o fewn y cwmpas roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

62. Fel rhan o'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, mae'r Bil drafft yn nodi y bydd y cyrff sydd o fewn y cwmpas yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynglŷn â gweithrediad eu trefniadau partneriaeth gymdeithasol. Bydd undeb(au) llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus yn cytuno ar yr adroddiad neu bydd yn cynnwys datganiad yn esbonio pam na chytunwyd arno. Bwriedir i'r canllawiau gael ei cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac y byddant yn rhoi manylion y prosesau adrodd. Lle mai Gweinidogion Cymru yw'r corff cyhoeddus, byddant yn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 2: Beth yw'ch barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft?

Cwestiwn 3: Beth yw'ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon?

Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn ar y rhestr o gyrff y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai'r rhestr o gyrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt?

6. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg

Trosolwg

63. Mae rhan 2 o'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion gwaith teg mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol; i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny; ac i adrodd yn ôl yn flynyddol ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud a faint o gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd yr amcanion hynny. Mae'r Bil drafft yn nodi bod rhaid gosod yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd – gan sicrhau tryloywder ehangach a'r cyfle i graffu.

64. Mae'r Bil drafft yn nodi hierarchaeth y disgwylir iddi lifo fel a ganlyn:

    a. Adnabod y 'nod gwaith teg', sef disgrifiad o nodweddion penodol sy'n gysylltiedig â gwaith teg ac yn cael eu fframio gan y diffiniad yn *Gwaith Teg yng Nghymru*.

    b. Bydd amcanion yn cael eu pennu, eu cyhoeddi a'u hadolygu gan Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, a byddant yn gobeithio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan Weinidogion Cymru tuag at gyflawni'r nod gwaith teg.

    c. Ymdrechu i gymryd yr holl gamau rhesymol (y mesurau rhesymol) i gyflawni'r amcanion.

    d. Adrodd yn flynyddol ar ganlyniad y camau a'r gweithredoedd hynny, a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion.

65. Bwriad y broses hon o bennu amcanion, cymryd camau gweithredu ac adrodd ar gynnydd yw sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan Weinidogion Cymru tuag at gyflawni gwaith teg – gan wella gwybodaeth am gamau gweithredu a dealltwriaeth ohonynt yn hyn o beth. At ddibenion esboniadol, mae cynrychioliad o sut bydd amcanion gwaith teg yn cael eu datblygu, eu cyflawni a'u hadrodd wedi'i nodi mewn diagram yn yr adran hon.

Diffinio gwaith teg mewn cyd-destun datganoledig

66. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld Cymru'n datblygu i fod yn 'genedl gwaith teg'. Rydym yn ardystio'r diffiniad o waith teg a nodir yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg ac a dderbynnir yn helaeth: 'Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.'

67. Rydym hefyd yn ardystio'r chwe nodwedd allweddol ar gyfer gwaith teg a nodir gan y Comisiwn Gwaith Teg:

    a. Gwobrwyo teg;

b. Llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth;

c. Sicrwydd a hyblygrwydd;
d. Cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen;

e. Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol;

f. Mae hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu a'u gwireddu.

68. Roedd adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, *Gwaith Teg yng Nghymru*, yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi'i chyfyngu o ran beth y gall wneud yn ddeddfwriaethol o fewn y setliad datganoli presennol. Roedd *Gwaith Teg yng Nghymru* hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn manteisio ar bob cyfle o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol i ddatblygu gwaith teg.

69. Felly, yn unol â'r argymhellion, rydym yn ceisio archwilio drwy'r Bil drafft hwn sut gallwn symud gwaith teg yn ei flaen o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnal uchelgais y Llywodraeth i wneud Cymru'n 'wlad o waith teg'.

Pwerau deddfu datganoledig

70. Mae'r setliad datganoli presennol yn gosod cyfyngiadau penodol ar allu'r Senedd i ddeddfu mewn meysydd penodol. Fe wnaeth Deddf Cymru 2017 ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno model datganoli ar gyfer 'pwerau a gedwir yn ôl'. Mae hyn yn darparu bod popeth wedi'i ddatganoli oni bai ei fod yn ymddangos mewn rhestr o gymalau cadw, sy'n cwmpasu materion a gedwir yn ôl ar gyfer Senedd y DU. Mae'r setliad datganoli hefyd yn rhoi nifer o gyfyngiadau pellach ar allu'r Senedd i ddeddfu, sydd wedi'u nodi yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006.[36]

71. Er mwyn rhoi rhywfaint o ffocws i'r ymgynghoriad, rydym yn nodi yma rywfaint o feysydd posibl lle gallai Llywodraeth Cymru gefnogi ein huchelgais i wneud Cymru'n 'wlad o waith teg' drwy gymryd camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r chwe nodwedd gwaith teg a nodir gan y Comisiwn, ac a fyddai'n dod o fewn y meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

[36] Un o'r materion a gedwir yn ôl (Atodlen 7A paragraff 141) yw 'dyletswyddau a hawliau cyflogaeth, a chysylltiadau diwydiannol'. Mae'r mater hwn a gedwir yn ôl yn mynd i'r afael â phwnc 17 o Ddeddfau Seneddol y DU, gan gynnwys:

a. Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992,
b. Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999, a
c. Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Yr unig eithriad datanoledig i'r mater hwn a gedwir yn ôl yw pwnc Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

72. Gallai amcanion gwaith teg wedi'u datganoli (camau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru ddewis eu cymryd i fynd ar drywydd nod gwaith teg a nodwyd yn y Bil drafft) gynnwys y canlynol:
    a. Gweithredu ar dâl y sector cyhoeddus – er enghraifft, i wella tryloywder neu i fynd i'r afael â bylchau mewn cyflog a nodwyd.

    b. Anelu at gymhwyso'r Cytundeb Partneriaeth a Rheoli Newid ymysg cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn gallu dylanwadu ar newid sefydliadol sylweddol ar y cyd.

    c. Gwella a chefnogi cyfleoedd i weithwyr weithio'n hyblyg ac o bell ledled Cymru.

    d. Cynyddu'r mynediad at gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol i weithwyr ifanc, yn ogystal â chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith ehangach.

    e. Gwella mynediad at gymorth iechyd meddwl ac iechyd galwedigaethol yn y gweithle.

    f. Gwella ymwybyddiaeth o ddyletswyddau a hawliau cyflogaeth ymysg y gweithle.

73. Bwriad y rhestr hon yw rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau y gallai Gweinidogion Cymru ddewis eu dilyn yng nghyswllt gwaith teg o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig. Os bydd y drafft yn cael ei droi'n gyfraith, byddai Gweinidogion Cymru yn ceisio diffinio amcanion gwaith teg drwy ddeialog gyda phartneriaid cymdeithasol a gan gyfeirio at y canlyniadau a ddymunir gan ddefnyddio'r strwythurau a sefydlir gan y ddeddfwriaeth.

74. Wrth i ni barhau i ymchwilio i ddeddfu yn y maes cymhleth hwn, rydym yn chwilio'n benodol am farn ar y materion y gellid eu deddfu sydd o fewn ffiniau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac a allai yrru ein huchelgeisiau am 'Gymru Gwaith Teg' yn eu blaenau. I hwyluso hyn, rydym yn chwilio am safbwyntiau ar y diffiniad o waith teg sydd o fewn cymhwysedd. Mae cwestiwn ar y diffiniad hwn i'w weld isod (Cwestiwn 7) a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gael y mewnbwn ehangaf posibl. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn hefyd yn ymgysylltu'n agos â'n partneriaid cymdeithasol i ddefnyddio eu harbenigedd yn benodol i roi cysyniadau gwaith teg ar waith yn ymarferol ac i ystyried a beth gallai hyn ei olygu o ran nodi diffiniad gwaith teg yn y ddeddfwriaeth.

Cynrychiolaeth o'r prosesau ar gyfer amcanion gwaith teg
Mae'r rhestr isod yn dangos sut bydd amcanion gwaith teg yn cael eu datblygu a'u cyflawni a sut adroddir arnynt, mewn cydweithrediad â'r system partneriaeth gymdeithasol.

a. Gweinidogion Cymru yn nodi ac yn datblygu blaenoriaethau allweddol i yrru gwaith teg yn ei flaen yng Nghymru yn unol â'r nod o wella llesiant cymdeithasol ac economaidd a gwella gwasanaethau cyhoeddus: amcanion gwaith teg.

b. Mae pob sector yn gwneud cynnydd drwy eu cyd-strwythurau priodol. Yn y sector cyhoeddus, gwneir hyn gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ar gam(au) gweithredu ar lefel sector.

c. Gweinidogion Cymru yn adrodd yn ôl i Senedd Cymru yn flynyddol ar gynnydd tuag at fodloni'r amcanion gwaith teg.

d. Gweinidogion Cymru yn rhoi adborth ar y ddadl ynghylch yr adroddiad blynyddol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ei ystyried yn ei broses gynllunio reolaidd.

e. Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y gwersi a ddysgwyd gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ynghyd ag unrhyw gamau gofynnol pellach i symud yr amcan gwaith teg yn ei flaen.

f. Mae'r broses adrodd flynyddol yn darparu adborth wedi'i gydgrynhoi ar gyflawni amcanion gwaith teg ac ar y system partneriaeth gymdeithasol, ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y system.

g. Caiff adroddiadau monitro ar gynnydd i gyflawni amcanion gwaith teg eu bwydo'n ôl i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol drwy'r system partneriaeth gymdeithasol.

h. Caiff gwaith manwl ei gynnal o fewn sefydliadau.

i. Mae'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn trosi'r trefniant cenedlaethol a chynlluniau'r sector yn gamau gweithredu penodol sy'n berthnasol ac yn briodol i'r sefydliad hwnnw.

j. Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol am gyngor ar yr amcanion gwaith teg arfaethedig.

k. Gweinidogion Cymru yn ystyried cyngor y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ac yn cyhoeddi eu hamcanion gwaith teg. Gweinidogion Cymru yn ystyried cyngor y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar yw canllawiau arferion gorau, cyflyru grantiau/caffael, canllawiau statudol ac ati yn angenrheidiol / priodol i gyd-destun y sector a phwerau datganoledig.

l. Cynlluniau gweithredu ar gyfer cyrraedd amcanion gwaith teg unigol a bennir ar lefel sector.

m. Bydd yr holl ystyriaethau yn bwydo'n ôl i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol drwy is-grŵp neu'n uniongyrchol gan bartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod yr

holl faterion yn cael eu hystyried gan y Cyngor cyn y cyflwynir cyngor i Weinidogion Cymru.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 5: Beth yw'ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg?

Cwestiwn 6: Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo?

Cwestiwn 7: A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer 'Gwaith Teg yng Nghymru'?

Cwestiwn 8: Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg?

7. Darpariaethau allweddol y Bil: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Trosolwg

75. Mae rhan 3 o’r Bil drafft yn sefydlu dyletswyddau sy’n anelu at gyflawni rheoli contractau a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yng Nghymru. Bwriad y Bil drafft yw:

    a. Helpu awdurdodau contractio i sicrhau bod llesiant a gwaith teg yn ystyriaethau canolog ym maes caffael, er mwyn cefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau cyhoeddus.

    b. Symleiddio a dileu dyblygiad rhwng y nifer sylweddol o ddisgwyliadau polisi a roddir ar adrannau caffael;

    c. Sicrhau bod canlyniadau llesiant a gwaith teg wrth galon strategaethau a phrosesau caffael;

    d. Gwella’r cysylltiad rhwng prosesau caffael a chyflawni canlyniadau drwy reoli contractau’n well;

    e. Gwella tryloywder drwy gofnodi metrigau a chyhoeddi adroddiadau rheolaidd yn rhannu arferion da a meysydd lle mae angen gwella; a

    f. Dal sefydliadau i gyfrif am sicrhau bod yr amodau mewn contractau sy’n cefnogi arferion cymdeithasol gyfrifol yn cael eu cynnal drwy gadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn contractau adeiladu mawr a chontractau allanoli gwasanaeth.

Cyrff o fewn y cwmpas

76. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cyrff sy’n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael y manylir arnynt yn yr adran hon, yn ogystal â’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn adran 5 o’r ddogfen ymgynghori hon.

77. Rhestr hirach o gyrff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael yn hytrach na’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Y rheswm am hyn yw bod mwy o gyrff cyhoeddus yn cymryd rhan mewn llawer mwy o weithgareddau caffael nag sy’n ofynnol er mwyn cydymffurfio â’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

78. Bydd y ddyletswydd drosfwaol ar gyfer caffael cymdeithasol gyfrifol, y ddyletswydd rheoli contractau ar gyfer contractau adeiladu mawr, a’r darpariaethau cysylltiedig â gwella a chydymffurfio yn berthnasol i sefydliadau sy’n awdurdodau contractio yng Nghymru ac sydd felly’n dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth gaffael bresennol. Bwriad y polisi yw cynnwys cymesuredd yn y

disgwyliadau a’r canllawiau i sicrhau nad yw sefydliadau bach yn cael eu llethu’n ormodol gan y cynigion hyn.

79. Mae’r ddyletswydd ar gymalau gweithlu cymdeithasol y cyhoedd (trefniadau newydd ar gyfer cymhwyso Cod Ymarfer y Gweithlu (Dwy-Haen)) yn berthnasol i restr lai o gyrff. Y rheswm am hyn yw nad yw’r rhestr wedi newid llawer o’r rhestr o gyrff y mae’r Cod Ymarfer yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw cynghorau cymuned, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sydd ar hyn o bryd o fewn cwmpas y Cod presennol, wedi’u cynnwys. Byddant yn dal yn ddarostyngedig i'r Cod presennol, a fydd yn aros yn eu lle hyd nes y bydd unrhyw ddiweddariadau.

Corff	**Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**	**Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol**	**Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (“Cod Dwy-Haen”)**
Cyngor Celfyddydau Cymru	✓	✓	✓
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod lleol	✓	✓	✓
Bwrdd Iechyd Lleol	✓	✓	✓
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	✓	✓	✓
Amgueddfa Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru	✓	✓	✓
Corff Adnoddau Naturiol Cymru	✓	✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	✓	✓	✓
Cyngor Chwaraeon Cymru	✓	✓	✓

Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Felindre	✓	✓	✓
Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru	✓	✓	✓
Gweinidogion Cymru	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Cymru	✓	✓	✓
Awdurdod Cyllid Cymru	✓	✓	✓
Gofal Iechyd Digidol Cymru	✓	✓	✓
Corff	**Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**	**Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol**	**Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (“Cod Dwy-Haen”)**
Comisiynydd Plant Cymru	✗	✓	✗
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	✗	✓	✗
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	✗	✓	✗
Corff llywodraethu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru	✗	✓	✗
Corff llywodraethu ar gyfer sefydliad addysg uwch yng Nghymru	✗	✓	✗
Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig	✗	✓	✗
Comisiwn y Senedd	✗	✓	✗
Comisiynydd y Gymraeg	✗	✓	✗
Corff	**Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**	**Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol**	**Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (“Cod Dwy-Haen”)**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	✗	✓	✓
Gofal Cymdeithasol Cymru	✗	✓	✓
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	✗	✓	✓

Dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol

80. Mae’r diagram ar ddiwedd yr adran hon yn dangos sut mae’r cynigion caffael, rheoli contractau a chydymffurfio yn y Bil drafft hwn yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau caffael cyhoeddus sy’n gymdeithasol gyfrifol drwy gydol y cylch caffael. Mae’r dyletswyddau hyn yn ategu’r rheoliadau caffael cyhoeddus presennol sy’n ymwneud yn bennaf â phrosesau ar gyfer hysbysebu a dyfarnu contractau cyhoeddus. Maent hefyd yn canolbwyntio ar wella tryloywder amcanion a chanlyniadau caffael.

81. Mae’r dyletswyddau caffael yn dechrau gyda dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio i geisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gaffael cyhoeddus mewn ffordd sy’n gymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn golygu cymryd camau i gyflawni’r nodau llesiant a’r nod gwaith teg (sef, gyda’i gilydd, y ‘nodau caffael cymdeithasol gyfrifol’).

82. Rhaid i awdurdod contractio hefyd osod a chyhoeddi nodau sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol. Bydd y nodau hyn yn berthnasol i’r holl gontractau a ‘ragnodir’. Mae’r Bil drafft yn cynnwys contractau adeiladu mawr (mwy na £2m) a chontractau allanoli gwasanaeth o fewn y categori o gontractau a ragnodir, ond mewn agweddau eraill, bydd y categori hwn yn cael ei sefydlu mewn rheoliadau. Y disgwyliadau presennol o ran polisi yw y bydd contractau a ragnodir, ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, yn cynnwys yr holl rai uchod y mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn berthnasol iddynt mewn llywodraeth ganolog. Mae’r trothwy hwn yn newid fesul cyfnodau rheolaidd ac mae’n £122,976 ar hyn o bryd.

83. Un ffordd o gaffael mewn modd cymdeithasol gyfrifol yw cymryd camau penodol wrth gaffael contract adeiladu mawr; ffordd arall yw cymryd camau penodol wrth gaffael contract allanoli gwasanaeth. Caiff y dyletswyddau rheoli contractau hyn eu hegluro yn yr adran ganlynol.

84. Bydd angen i awdurdodau contractio gyhoeddi strategaethau caffael a chofrestr o gontractau presennol. Bydd hefyd angen iddynt gynhyrchu adroddiadau blynyddol a fydd yn mynd i'r afael â’u gweithgarwch caffael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan alluogi i gyflawniadau gael eu cyhoeddi a rhannu arfer da. Bydd strategaethau ac adroddiadau blynyddol yn galluogi i bob awdurdod ddisgrifio

ac adrodd ar ei brosesau a'i flaenoriaethau sefydliadol ei hun, yn ogystal â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol dan ganllawiau statudol.

85. At ddibenion ymarferol, a lle bo hynny'n bosibl, bydd y broses adrodd flynyddol yn cael ei symleiddio gyda gofynion adrodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys manylion gweithgareddau caffael sydd wedi'u gynllunio ar gyfer y dyfodol.

86. Ar ôl i'r adroddiadau hyn gael eu cyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cryno yn amlygu arferion da a meysydd gwan, ac yn cynnwys data perthnasol eraill.

87. Bydd canllawiau ar weithredu'r ddyletswydd drosfwaol, pennu amcanion a chynnwys gofynnol strategaethau ac adroddiadau blynyddol yn cael ei datblygu mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'r gymdeithas gaffael. Mae nifer o ganllawiau ac arweinlyfrau presennol yn mynd i'r afael â llawer o fanylion y materion sydd wedi'u cynnwys yn y ddyletswydd drosfwaol, a bydd yr ymgynghoriad a ddisgrifir yn gyfle i ddwyn hyn at ei gilydd, i symleiddio lle bo angen, ac i fynd i'r afael â meysydd sy'n gorgyffwrdd.

Dyletswyddau rheoli contractau

88. Mae dwy ddyletswydd rheoli contractau wedi'u cynnwys yn y Bil drafft. Mae'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cryfhau'r cysylltiad rhwng y gofynion sydd wedi'u cynnwys mewn ymarferion caffael, a'r diwydrwydd dyladwy a'r ffocws ar ganlyniadau sy'n ofynnol gan reolwyr contractau.

89. Mae'r ddyletswydd gyntaf i reoli contractau wedi'i chynllunio i wella diwydrwydd dyladwy wrth ddefnyddio telerau contract cymdeithasol gyfrifol ar draws cadwyni cyflenwi. Cyfeirir at y telerau hyn yn y Bil drafft fel cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol. Mae'r ddyletswydd hon yn canolbwyntio ar y sector adeiladu lle gall fod yn anodd mynd i'r afael â'r risgiau cysylltiedig â chydymffurfio'n wael â rhwymedigaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag arferion cyflogi annheg ac anghyfreithlon, ledled cadwyni cyflenwi hir a chymhleth.

90. Bydd y ddyletswydd yn gorfodi awdurdodau contractio sy'n cynllunio contractau caffael â gwerth disgwyliedig o dros £2m ym maes adeiladu, neu gontractau gwerth dros £2m o fframweithiau presennol, i roi gwybod i Lywodraeth Cymru os *nad* ydynt yn bwriadu:

    a. defnyddio'r holl gymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol, neu
    b. sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal ledled cadwyni cyflenwi, neu
    c. roi mecanwaith ar waith i fonitro sut cânt eu rhoi ar waith.

91. Mae'r cymalau hyn yn dod o dan y categorïau canlynol:

    a. Sicrhau a gorfodi taliadau prydlon.

b. Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, pobl hŷn, pobl ddi-waith hirdymor, pobl anabl, neu bobl sydd dan anfantais fel arall.

c. Sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth (gan gynnwys yr isafswm cyflog a'r cyflog byw), iechyd a diogelwch, a chynrychiolaeth o undebau llafur.

d. Darparu hyfforddiant priodol i weithwyr.

e. Rhoi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol neu sefydliadau yn y sector gwirfoddol gyflawni gwaith, cyflenwi cynnyrch neu ddarparu gwasanaethau.

f. Mynnu bod sefydliadau yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac yn diogelu neu wella'r amgylchedd naturiol a'i amrywiaeth.

92. Os nad yw'r awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys yr holl gymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol na monitro sut cânt eu rhoi ar waith drwy is-gontractau, bydd angen iddynt anfon hysbysiad eithrio at Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl. Bydd gofyn i'r awdurdod contractio roi rhesymau dros y penderfyniad hwn ac, os bydd angen ymchwiliad pellach ar y cam hwnnw, bydd yr hysbysiad a'r manylion yn cael eu darparu i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, a fydd yn ceisio cyngor gan ei is-grŵp caffael ynglŷn ag a ddylid cyhoeddi adroddiad eithrio. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn fodlon, cânt gyfarwyddo'r awdurdod contractio i gymryd camau penodol neu gyhoeddi adroddiad ar eithriadau os bydd anghytundeb yn parhau. Mewn geiriau eraill, gellir datrys materion ar unrhyw gam o'r broses hon.

93. Bydd canllawiau statudol yn cynnwys telerau enghreifftiol a manylion y prosesau y dylid eu rhoi ar waith i fonitro a rheoli'r rhain, ac i adrodd ar ganlyniadau. Dylid nodi nad bwriad cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yw disodli gofynion budd cymunedol mewn prosesau caffael, sy'n parhau i fod yn ffordd o gyfrannu at gyflawni nodau caffael cymdeithasol gyfrifol.

94. Er mai'r bwriad yw canolbwyntio ar y diwydiant adeiladu ac ar gontractau mwy yn y lle cyntaf, er mwyn profi sut rhoddir y ddyletswydd hon ar waith, gall Gweinidogion Cymru ymestyn y ddyletswydd hon i sectorau eraill yn economi Cymru yn nes ymlaen.

95. Yr ail ddyletswydd rheoli contractau yw newid Cod Ymarfer y Gweithlu (Dwy-Haen), sydd eisoes wedi'i nodi fel canllaw neu gyfarwyddyd ar gyfer cyrff penodol.[37] Bydd y Bil drafft yn rhoi sail statudol i'r Cod Ymarfer. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn darparu y dylai prosesau contractio ac aildendro yn cynnwys staff sy'n trosglwyddo o gyrff gyhoeddus gael eu cynnal i sicrhau bod y telerau

[37] Gweler, er enghraifft, adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 neu adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ac fel gyfarwyddyd o dan adrannau 12 a 10 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 neu erthygl 11 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

ac amodau’n cael eu diogelu a bod y pensiynau’n aros fwy neu lai yr un fath. Mae hefyd yn sicrhau bod y bobl newydd sy’n ymuno â gweithlu wedi’i drosglwyddo allan hefyd yn cael eu cyflogi ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol.

96. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i restr o gyrff gwahanol i’r rheini sy’n dod o fewn cwmpas y dyletswyddau caffael (gweler y tabl uchod). Mae’r Cod presennol yn cynnwys cymalau contract enghreifftiol sy’n ymdrin â’r materion a nodir yn y paragraff blaenorol. Mae’r rhain yn debygol o gael eu hailgyhoeddi mewn ymateb i’r ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru yn y Bil drafft i gyhoeddi cymalau drafft. Cyfeirir atynt yn y Bil drafft fel cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol.

97. Mae’r newidiadau arfaethedig i weithrediad y Cod Ymarfer hwn yn y Bil drafft hwn wedi’u cyfyngu i osod gofyniad ychwanegol ar awdurdodau. Os nad yw’r awdurdod yn bwriadu cymhwyso a monitro cymalau’r contract ei hun a’i gadwyn gyflenwi, rhaid rhoi hysbysiad eithrio i Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd mae’r broses adrodd yn digwydd yn flynyddol mewn modd ôl-weithredol, a bydd y gofyniad hwnnw’n parhau. Bydd y ddyletswydd newydd yr un fath a’r un ar gyfer cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol, sy’n ei gwneud yn ofynnol bod yr hysbysiad yn cael ei adolygu gan Weinidogion Cymru, a all roi gwybod i’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a all, gyda chymorth ei is-grŵp caffael, gynghori Gweinidogion Cymru, a all ofyn i'r awdurdod gymryd camau penodol. Os bydd anghytundeb rhwng y corff contractio a Gweinidogion Cymru o hyd, gallai adroddiad eithrio gael ei gyhoeddi. Dylid nodi bod y Bil drafft yn fwy penodol ynghylch y ddyletswydd i fonitro’r defnydd o gymalau’r gweithlu drwy gydol y contract ac unrhyw is-gontractau na’r rheoliadau presennol.

98. Mae fersiynau tebyg i'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau rheoli contractau a chaffael wedi’u cynnwys mewn deddfwriaeth a pholisi sy’n bodoli eisoes yn yr Alban a’r DU ac maent wedi’u llunio i atgyfnerthu polisi presennol a chryfhau mecanweithiau sy’n bodoli eisoes. O ganlyniad i hynny, ni ddisgwylir canlyniadau anfwriadol. Fodd bynnag, mae’r ddyletswydd sy’n ymwneud â chymal gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn newydd ac nid yw wedi cael ei brofi. Mae adnoddau diwydrwydd dyladwy ar gyfer cadwyni cyflenwi yn bodoli yn y diwydiant adeiladu, ond nid oes un model neu ddull delfrydol yn bodoli. Un canlyniad anfwriadol a allai ddeillio o'r ddyletswydd hon yw datblygu nifer o adnoddau sy’n cystadlu â’i gilydd o ran archwilio a o ran tryloywder y gadwyn gyflenwi yn y diwydiant adeiladu. Gallai rhoi’r rhain ar waith fod yn gostus a chynyddu costau i gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig. Rhaid lliniaru’r canlyniad hwn drwy ymgysylltu â gweithredwyr bach a chanolig yn y diwydiant adeiladu, yn ogystal â chontractwyr haen gyntaf wrth i systemau newydd gael eu harchwilio a’u datblygu.

Cynrychiolaeth o'r cylch caffael cymdeithasol gyfrifol

Mae'r diagram isod yn cynrychioli'r cylch caffael o'r dechrau i'r diwedd a'r camau gweithredu arfaethedig mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r dyletswyddau rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn y Bil drafft. Yn ogystal â darpariaethau'r drafft a nodir yn y blychau oren wedi'u hamlinellu, mae 'dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol' drosfwaol, sy'n berthnasol i'r holl gaffael, yn cwmpasu'r cylch caffael cyfan.



Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 9: Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol?

Cwestiwn 10: Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol?

Cwestiwn 11: Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy-Haen)?

Cwestiwn 12: A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu?

Cwestiwn 13: Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi?

Cwestiwn 14: Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol?

8. Darpariaethau allweddol y Bil: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Trosolwg

99. Mae rhan 4 o'r Bil drafft yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â sefydlu corff cynghori statudol teirochrog, sef fforwm traws-sector cenedlaethol wedi'i gadeirio gan y Prif Weinidog, o'r enw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, sy'n cysylltu darpariaethau caffael cyhoeddus, gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol y Bil drafft. Bwriad y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yw darparu sianel ar gyfer llais a chyfranogiad partneriaid cymdeithasol – cyflogwyr ac undebau llafur yn benodol – yn y broses o ddatblygu polisi'r Llywodraeth a'i roi ar waith. Prif ddiben y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fydd cefnogi Gweinidogion Cymru wrth iddynt weithredu i wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant, yn enwedig llesiant cymdeithasol ac economaidd, drwy gryfhau a gwella cysondeb y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

100. I gyflawni'r diben a amlinellir uchod, dyma fydd amcanion y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol:

    a. Darparu arweinyddiaeth a hyrwyddo cysondeb yn y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn arwain system sy'n cysylltu partneriaeth gymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol, sector, traws-sector a chenedlaethol drwy gyfleu gweledigaeth gyffredin a rhoi arweiniad a chyfeiriad ynghylch partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

    b. Darparu sianel ffurfiol y gall cyflogwyr ac undebau llafur ei defnyddio i ymgysylltu â Gweinidogion Cymru, dod i gytundeb ar faterion o ddiddordeb cyffredin, a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar sut i roi gwell sail wybodaeth i bolisi a llywio'r broses o'i roi ar waith.

    c. Rhoi trosolwg o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ganlyniad i gyflwyno'r bartneriaeth gymdeithasol, dyletswyddau gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys rhoi cyngor, arweiniad a chyfeiriad er mwyn cefnogi'r broses weithredu, monitro diffyg cydymffurfedd, a darparu llwybr uwchgyfeirio ar gyfer y materion a godir.

101. Mae'r Bil drafft yn nodi mai swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n berthnasol i bartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol.

102. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol hefyd yn:

    a. Darparu cyngor, cymorth ac arweiniad i'r partneriaid cymdeithasol a gynrychiolir ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

b. Helpu partneriaid cymdeithasol o undebau llafur a sefydliadau cyflogi i weithio gyda'i gilydd i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

c. Cytuno ar gytundebau gwirfoddol rhwng partneriaid cymdeithasol yn unol â materion sy'n rhan o gylch gorchwyl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

103. Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi cael ei sefydlu ac mae'n weithredol ar hyn o bryd. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weinidog ac mae'n darparu sianel y gall Gweinidogion Cymru ei defnyddio i gysylltu â phartneriaid cymdeithasol ar sail deirochrog a thraws-sector.

104. Fel rhan o'r ymateb i argyfwng pandemig COVID-19, mae cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, gydag aelodaeth estynedig i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol., wedi bod yn cael eu defnyddio i rannu manylion a gwybodaeth am ddatblygiad polisi gyda phartneriaid cymdeithasol.

Strwythur arfaethedig

Mae'r diagram isod yn dangos aelodaeth arfaethedig y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol:



105. Bydd gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol strwythur partneriaeth gymdeithasol teirochrog, gyda thri chategori o aelodau (partneriaid cymdeithasol):

a. Naw aelod a fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y Prif Weinidog fel Cadeirydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol).

b. Naw aelod a fydd yn cynrychioli cyflogwyr yng Nghymru.

c. Naw aelod a fydd yn cynrychioli'r undebau llafur cydnabyddedig yn Nghymru.

106. Er nad yw wedi'i nodi yn y Bil drafft, bwriedir i'r cylch gorchwyl ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol nodi y gall y Prif Weinidog wahodd rhanddeiliaid ychwanegol i gyfarfodydd y Cyngor pan fydd aelodau'r Cyngor wedi cytuno ar hynny.

107. Bydd y Prif Weinidog yn gofyn am enwebiadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gan gyrff enwebu a bydd yn gyfrifol am gymeradwyo'r enwebiadau a'r penodiadau. Disgrifir yr enwebiadau a'r penodiadau hyn mewn mwy o fanylder yn yr adrannau ar gyfer pob categori aelodaeth.

Nodweddion aelodaeth

108. Mae'r Bil drafft yn nodi y bydd pob penodiad i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn para tair blynedd (oni bai fod y penodai yn ymddiswyddo neu, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, fod y Prif Weinidog yn terfynu'r penodiad yn ysgrifenedig). Pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben, bydd cylch enwebu a phenodi newydd yn dechrau gan ddilyn y broses a amlinellir uchod. Bydd telerau ac amodau safonol ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn berthnasol, ac eithrio'r broses enwebu. Bwriedir i hyn gael ei nodi yng nghylch gorchwyl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

109. Pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben, bydd cylch enwebu a phenodi newydd yn dechrau gan ddilyn y broses a amlinellir uchod.

110. Bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl cynrychiolaeth amrywiol ymysg yr enwebiadau a geir ar gyfer pob categori aelodaeth, gan roi ystyriaeth i ryw, hil ac anabledd er mwyn sicrhau bod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn adlewyrchu amrywiaeth y gweithlu yng Nghymru. Efallai y bydd y gofynion amrywiaeth sylfaenol yn cael eu nodi yng nghylch gorchwyl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

111. Bydd y Prif Weinidog fel arfer yn derbyn yr enwebiadau a wneir gan y cyrff cyflogi a'r undebau llafur sy'n enwebu. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, fel materion sy'n ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau, bydd y Prif Weinidog yn cysylltu â chyrff enwebu i geisio datrys hyn. Gall hyn gynnwys gofyn am enwebiadau newydd.

Aelodau o Lywodraeth Cymru

112. Bydd y categori hwn yn cynnwys y Prif Weinidog (fel Cadeirydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol) a hyd at wyth arall, a all gynnwys Gweinidogion Cymru, Dirpwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol, sy'n cael eu gwahodd gan y Prif Weinidog. Os na all y Prif Weinidog gadeirio cyfarfod y Cyngor

Partneriaeth Gymdeithasol, bydd yn enwebu Gweinidog arall i gadeirio. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y bydd hyn yn digwydd.

Aelodau o sefydliadau cyflogi

113. Bydd naw aelod yn cynrychioli sefydliadau cyflogi. Byddant yn cynnwys:
    a. Tri aelod yn cynrychioli'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bwriedir i'r aelodau hyn gynrychioli amrywiaeth o sefydliadau ac awdurdodau a ddiffinnir fel 'cyrff cyhoeddus' o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

    b. Tri aelod yn cynrychioli'r sector preifat yng Nghymru. Bwriedir i'r aelodau hyn gynrychioli amrywiaeth o fusnesau yn y sector preifat.

    c. Un aelod yn cynrychioli'r sector addysg uwch yng Nghymru. Bwriedir i'r aelod hwn gynrychioli amrywiaeth o sefydliadau a ddiffinnir yn adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

    d. Un aelod yn cynrychioli'r sector addysg bellach yng Nghymru. Bwriedir i'r aelod hwn gynrychioli amrywiaeth o sefydliadau a ddiffinnir yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

    e. Un aelod yn cynrychioli'r trydydd sector (y sector gwirfoddol) yng Nghymru. Bwriedir i'r aelod hwn gynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn unol â'r diffiniad yng Nghynllun y Trydydd Sector o dan adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006).

114. Mae'r Bil drafft yn nodi y bydd y naw aelod o sefydliadau cyflogi yn cael eu penodi gan y Prif Weinidog. Cyn gwneud y penodiadau hyn, bydd y Prif Weinidog yn gofyn am enwebiadau gan gyrff enwebu y bwriedir eu nodi yng nghylch gorchwyl Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, a'u newid a'u diweddaru pan fo angen. Dyma'r cyrff enwebu posibl sydd dan ystyriaeth:

Yn cynrychioli	Corff Enwebu	Nifer yr Aelodau
Y sector cyhoeddus: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	1
Y sector cyhoeddus: byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG	Cyflogwyr y GIG	1
Y sector cyhoeddus: Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus datganoledig (ac eithrio llywodraeth leol ac iechyd)	Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru	1

Y sector preifat	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain	1
	Ffederasiwn Busnesau Bach	1
	Siambrau Cymru	1
Y sector addysg bellach	Colegau Cymru	1
Y sector addysg uwch	Prifysgolion Cymru	1
Y trydydd sector (gwirfoddol)	CGGC	1

Aelodau o undebau llafur

115. Bydd y gynrychiolaeth o undebau llafur yn cynnwys naw aelod. Bydd yr aelodau hyn yn adlewyrchu'r ystod o gynrhychiolwyr o sefydliadau cyflogi ar draws y sector a nodir uchod, gan ystyried trefniadau cyfunol sector a chymesuredd o'i gymharu ag aelodaeth undebau llafur.

116. Bydd y naw aelod yn cael eu penodi gan y Prif Weinidog. Bydd y Prif Weinidog yn gofyn am enwebiadau gan TUC Cymru. TUC Cymru yw'r corff enwebu dynodedig ar gyfer aelodau o undebau llafur yn y Bil drafft, o ystyried ymreolaeth TUC Cymru o faterion Cymreig a'i rôl bresennol yn cydlynu safbwyntiau a chyfranogiad cyfunol undebau llafur (gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gysylltiedig â TUC Cymru) yn y trefniadau partneriaeth gymdeithasol traws-sector a theirochrog presennol.

Gweithrediadau

117. Mae'r Bil drafft yn nodi y bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cyfarfod o leiaf dair gwaith ym mhob cyfnod o 12 mis, gan gychwyn ar y diwrnod ar ôl i'r Prif Weinidog benodi'r holl aelodau cychwynnol.

118. Bydd cylch gorchwyl, yn nodi gweithdrefnau a chworwm ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn cael eu llunio a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis i wneud y penodiadau cychwynnol. Bydd hyn yn llywodraethu gweithrediad ymarferol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

119. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn ystyried materion unigol, yn ogystal â materion strwythurol, sy'n ymwneud â sut mae cyflogwyr, cyflogeion ac undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru. Bydd gwybodaeth a phrofiad aelodau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau a gaiff gan ei is-grwpiau, y manylir arnynt isod, yn rhoi sail i'w waith. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru wedyn fydd ystyried yr argymhellion a phenderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau drwy eu swyddogaethau statudol a drwy gymorth a chydweithrediad partneriaid cymdeithasol.

120. Mae cydweithrediad a datrys problemau yn elfennau allweddol mewn partneriaeth gymdeithasol. Bwriedir i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol allu

annog a sefydlu’r math hwn o ddull i raddau pellach yng Nghymru, yn unol â’r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol. Drwy gynghori Gweinidogion Cymru, bwriedir i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol chwarae rôl allweddol yn y gwaith o lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol yng Nghymru, gan weithredu fel arweinydd system.

121. Mae'r Bil drafft yn nodi y bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynghori Gweinidogion ar eu dyletswyddau gwaith teg a amlinellir yn adran 6 o’r ddogfen ymgynghori hon.

122. Mae’r Bil drafft yn nodi y bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn adran 7 o’r ddogfen ymgynghori hon. Mae’r Bil drafft yn nodi y bydd is-grŵp caffael yn cael ei sefydlu er mwyn cynghori’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar y materion hyn ac fe fanylir ar hyn yn yr adran ar is-grwpiau isod.

123. Er mai unig rôl statudol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn unol â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, yw cynghori Gweinidogion Cymru, bydd sefydlu'r Cyngor a’i fodolaeth yn annog aelodau i gymryd cyfrifoldeb dros ymgymryd â rhagor o weithgarwch partneriaeth gymdeithasol yn eu sefydliadau/sectorau eu hunain.

124. Er na fydd hyn wedi’i nodi mewn unrhyw gyfraith, y bwriad yw y bydd penderfyniadau a chytundebau yn cael eu gwneud yn y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gyda chydsyniad yr holl aelodau. Bydd y broses gwneud cytundebau yn cael ei nodi yn y cylch gorchwyl. Ni all sefydliadau, sectorau nac eraill gael eu rhwymo’n gyfreithiol i unrhyw benderfyniad na chytundeb gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Felly, bydd unrhyw gytundeb a wneir gan aelodau’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn wirfoddol ei natur ac ni fydd yn tanseilio trefniadau cydfargeinio. Gallai cytundebau o'r fath fod ar ffurf cytundebau ‘fframwaith’, fel strategaethau, egwyddorion neu ganllawiau sy’n galluogi camau gweithredu i gael eu cymryd gan sectorau ac oddi mewn iddynt mewn partneriaeth gymdeithasol. Bydd partneriaid cymdeithasol yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o roi’r penderfyniadau a wneir yn eu sectorau ar waith, a byddant yn adrodd yn ôl ar hyn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

125. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn datblygu strwythurau partneriaeth gymdeithasol rhanbarthol a gyda rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Is-grwpiau

126. Mae’r Bil drafft yn nodi y bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi’i rymuso i greu is-grwpiau a fydd yn rhoi cyngor ac argymhellion i'r Cyngor. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cytuno ar gylch gwaith ac aelodaeth yr holl is-grwpiau hyn, a bydd y broses yn cael ei nodi yng nghylch gorchwyl y Cyngor. Bydd yr holl is-grwpiau yn cael eu cadeirio gan un (neu ragor) o aelodau’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

127. Rhoddir dyletswydd ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp caffael i gefnogi’r Cyngor yn ei rôl yn cynghori

Gweinidogion Cymru ar gaffael cymdeithasol gyfrifol. Bydd gan yr is-grŵp caffael yr un rôl a statws ag unrhyw is-grŵp arall. Disgwylir i'w aelodau gynnwys arbenigwyr technegol perthnasol ym maes caffael.

128. Rhaid i bob is-grŵp gael ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Fodd bynnag, gall yr aelodau eraill ddod o'r tu allan i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cytuno ar gylch gorchwyl ac aelodaeth yr holl is-grwpiau.

System partneriaeth gymdeithasol

129. Drwy sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yn adran 5, bwriad y Bil drafft yw cryfhau a hyrwyddo cysondeb yn y system partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

130. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn darparu arweinyddiaeth systemau, gan sefydlu perthnasoedd a chysylltu gwahanol lefelau'r bartneriaeth gymdeithasol a sicrhau diben strategol cyffredin.

131. Er nad yw'r Bil drafft yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phartneriaeth gymdeithasol ar lefelau rhanbarthol, sectorol a thraws-sector, bwriedir i strwythurau partneriaeth gymdeithasol ar y lefelau hyn, yn y presennol a'r dyfodol, weithio'n agos gyda'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a gyda threfniadau partneriaeth gymdeithasol lleol.

132. Ar y dudalen nesaf, ceir cynrychioliad esboniadol o sut gallai'r system partneriaeth gymdeithasol weithredu mewn modd cydlynus i nodi materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â nhw.

Cynrychiolaeth o'r system partneriaeth gymdeithasol

Mae'r diagram isod yn dangos sut y bwriedir i wahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol ryngblethu yn y sector cyhoeddus. Mae'r diagram yn dangos sut bydd materion yn cael eu codi drwy'r system, o lefel leol i lefelau sectorol / traws-sector / rhanbarthol ac yna i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol traws-sector cenedlaethol. Mae hefyd yn dangos sut bydd penderfyniadau a chytundebau ar lefel y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cael eu trosi'n gamau gweithredu ar y lefelau eraill.

Strwythur partneriaeth gymdeithasol ar lefel leol

- Mater unigol / grŵp a godir gan bartner cymdeithasol.
- Rheolwyr gweithlu/adran ac undeb llafur yn cydweithio i gytuno ar ddatrysiad.
- Fforwm cyflogwr/undeb llafur ar y cyd ar gyfer corff cyhoeddus yn adolygu ac yn mireinio dull y cytunir arno er mwyn ei roi ar waith ledled sefydliad cyfan.
- Fforwm corff cyhoeddus ar y cyd yn nodi y bydd yn cael ei roi ar draws ledled y sector cyfan i raddau, ac felly'n uwchgyfeirio'r mater i'r fforwm sector / traws-sector / rhanbarthol fel enghraifft o arfer da.

Strwythur partneriaeth gymdeithasol sector / traws-sector / rhanbarthol

- Fforwm sector / traws-sector / rhanbarthol gyda chyflogwr/undeb llafur ar y cyd yn adolygu ac yn cytuno ar ddull sector / traws-sector / rhanbarthol.
- Fforwm sector / traws-sector / rhanbarthol yn nodi y gallai'r datrysiad gael ei ddefnyddio'n ehangach ac felly'n ei uwchgyfeirio drwy gynrychiolwyr priodol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

- Y CPG yn adolygu ac yn mireinio er mwyn creu dull cenedlaethol / ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan (gan ddefnyddio is-grŵp os oes angen).
- Gweinidogion Cymru yn ystyried cyngor y CPG ar a oes elfennau y gellid eu defnyddio y tu hwnt i'r sector cyhoeddus.
- Gweinidogion Cymru yn ystyried cyngor y CPG ar a oes angen canllawiau arferion gorau, cyflyru grantiau/caffael, canllawiau statudol ac ati sy'n briodol i gyd-destun sector / traws-sector / rhanbarthol a phwerau datganoledig.
- Y CPG yn cyfeirio'r dull cenedlaethol / sector cyhoeddus cyfan at yr holl sectorau o fewn y cwmpas i'w roi ar waith.

Pob strwythur partneriaeth gymdeithasol sector / traws-sector / rhanbarthol

- Pob fforwm sector / traws-sector / rhanbarthol gyda chyflogwr/undeb llafur ar y cyd yn cytuno ar ddull rhanbarthol / sector cyfan / traws-sector o weithredu yn unol â'r cyd-destun.
- Fforwm sector / traws-sector / rhanbarthol ar y cyd yn pasio cytundeb a chanllawiau ymlaen i bob corff cyhoeddus eu rhoi ar waith.

Pob corff cyhoeddus

- Fforwm cyflogwr/undeb ar y cyd ar gyfer corff cyhoeddus yn cytuni ar gamau gweithredu penodol y mae angen eu cymryd i roi'r cytundeb sector / traws-sector / rhanbarthol waith.
- Darparu canllawiau/hyfforddiant i reolwyr adrannol a chynrychiolwyr undebau llafur lle bo angen.
- Cytuno ar gynllun cyfathrebu ar y cyd i hysbysu'r gweithlu.
- Cytuno ar fecanwaith monitro ac adrodd.
- Adolygu gweithrediad fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar y cyd i'r Cyngor Partneriaeth Statudol.
- Methiannau sylweddol i roi'r cytundeb ar waith yn cael eu huwchgyfeirio drwy drefniadau anghydfod arferol y sector.

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

- Y CPG yn adrodd ar weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a chanllawiau unrhyw anghydfod ar lefel sector / traws-sector / rhanbarthol.
- Y CPG yn cytuno ar unrhyw gamau mireinio y mae angen eu cymryd ac yn cyfeirio'r rhain yn ôl at lefelau sector / traws-sector / rhanbarthol i'w rhoi ar waith.
- Lle bo'n briodol, bydd y CPG yn adolygu sut caiff unrhyw ofynion cyflyru/statudol a nodir gan Weinidogion eu mabwysiadu'n wirfoddol a'u cyflawni mewn sectorau eraill.
- Y CPG yn cynghori Gweinidogion Cymru ar unrhyw gamau gweithredu ychwanegol (o fewn eu cymhwysedd) y mae angen eu cymryd i roi'r dull ar waith yn llawn yn y sector cyhoeddus ac i'w fabwysiadu / rhoi ar waith yn wirfoddol yn ehangach.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch:

a. Aelodaeth y Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol?
b. Y broses enwebu arfaethedig?

Cwestiwn 16: Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau?

Cwestiwn 17: Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol.

9. Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd

Rhan A: Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg

133. Mae’r Bil drafft yn nodi nifer o rwymedigaethau sy’n syrthio ar gyrff penodol yn y sector cyhoeddus. Mae dyletswyddau hefyd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu amcanion gwaith teg mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gweithredu arnynt ac adrodd ar y cynnydd. Mae rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys darparu cyngor, cymorth a chanllawiau er mwyn cyflawni’r dyletswyddau hynny. Mae dyletswyddau pellach ar gyrff cyhoeddus penodol sy’n ymwneud â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Mae hwn yn ddull cyfunol o gefnogi a chyflawni gwell darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, gwell llesiant cymdeithasol ac economaidd, ac anelu at waith teg yng Nghymru.

134. Partneriaeth gymdeithasol yw'r edefyn aur sy’n rhedeg drwy’r system ac yn galluogi partneriaid i fabwysiadu safbwynt Cymru gyfan y cytunir arno a’i ddefnyddio mewn ffordd ymarferol sy’n briodol i'r amgylchiadau ar gyfer sector neu gorff penodol. Mae hyn yn caniatáu ‘hunan-blismona’ ar y ddwy ochr mewn cytundebau dwyochrog cyfun mewn cyrff cyhoeddus. Mae’r dull polisi ar gyfer y Bil drafft yn ceisio sicrhau cydymffurfedd drwy lunio trefniadau partneriaeth gymdeithasol statudol i gyhoeddi a datblygu camau gweithredu a’u rhoi ar waith drwy'r cyrff cyhoeddus unigol hynny.

135. Mae rhai elfennau o gadw cydbwysedd wedi’u hymgorffori yn y system partneriaeth gymdeithasol drwy broses adrodd flynyddol, ond efallai y ceir sefyllfaoedd lle na fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil drafft, nac yn gweithredu unrhyw rai o’r dulliau y cytunwyd arnynt ac y mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol neu sectorau yn ystyried mai’r rhain yw'r trywydd cydweithredu priodol i gyflawni’r diben.

136. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio a fydd yn galluogi cyrff i gael cyngor, canllawiau a chymorth i fodloni eu rhwymedigaethau. Bydd hyn yn rhan o ystod o gamau gweithredu cymesur i gyflawni cydymffurfedd. Lle bo cyrff yn dal yn methu bodloni eu rhwymedigaethau, dylid cymryd camau cymesur i ymyrryd er mwyn mynnu bod y corff hwnnw’n bodloni’r rhwymedigaeth.

137. Cafwyd ymatebion cymysg i'r ymgynghoriad Papur Gwyn, *Cymru sy’n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol,* ynghylch rhoi dirwyon i’r cyrff sy’n methu bodloni eu rhwymedigaethau. Gall bygwth cosb ariannol fod yn fesur ataliol defnyddiol weithiau, ond mae Gweinidogion Cymru yn deall ei bod yn anodd iawn gweithredu dull o’r fath yn dechnegol ac y gallai arwain yn anfwriadol at wasanaeth cyhoeddus yn colli cyllid, sy’n mynd yn groes i fwriad y cynigion.

Cwestiynau’r Ymgynghoriad

Cwestiwn 18: O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni’r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio’n ymarferol?

Cwestiwn 19: A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio’n ymarferol?

Rhan B: Caffael cymdeithasol gyfrifol

138. Yn yr un modd â'r hyn a nodir yn neddfwriaeth yr Alban, cynigir mai tryloywder a chraffu fydd y prif ffactorau gwthio ar gyfer sicrhau cydymffurfedd.

139. Fel y disgrifir uchod, gan ystyried Cod y Gweithlu Dwy-Haen (cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol) a chynnwys y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu â gwerth disgwyliedig o dros £2m, bydd rhaid cyflwyno hysbysiad eithrio i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl os nad yw'r corff yn bwriadu defnyddio'r cymalau contractio.

140. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gyda chyngor gan ei is-grŵp caffael, yn craffu ar grynodeb o adroddiadau blynyddol a hysbysiadau eithrio a gyflwynir i Weinidogion Cymru, a bydd yn adrodd ar y rhain i Weinidogion Cymru.

141. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, gyda chyngor gan ei is-grŵp caffael, hefyd yn adolygu adroddiad caffael blynyddol trosfwaol Llywodraeth Cymru. Bydd y data sy'n cael ei gynnwys yn adroddiadau caffael blynyddol awdurdodau contractio yn crynhoi'r sefyllfa gyffredinol yng Nghymru, a bydd yn darparu cyngor ar hyn i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd.

142. Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru ymchwilio i'r modd y mae awdurdod contractio yn caffael. Bydd dyletswydd ar awdurdodau contractio i ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol i gynorthwyo â'r ymchwiliadau hyn, a allai gael ei sbarduno gan faterion sy'n codi o'r broses adrodd flynyddol, neu drwy achosion penodol.

143. Er nad yw hyn wedi'i nodi yn y Bil drafft, y bwriad polisi yw, er mwyn canfod achosion penodol i'w hadolygu, y bydd gwasanaeth newydd yn cael ei sefydlu a fydd yn debyg i'r gwasanaeth Adolygu Caffael Cyhoeddus yn Lloegr, a sefydlwyd o dan adran 40 o Ddeddf Menter a Chyflogaeth Busnesau Bach 2015.

144. Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth newydd hwn yn derbyn ymholiadau gan undebau llafur a sefydliadau eraill ac yn gwneud argymhellion nad ydynt yn rhwymol. Bydd rhagor o fanylion am y gwasanaeth hwn yn cael eu nodi mewn dogfen cylch gwaith a chwmpas gwasanaeth. Mae'r Bil drafft yn rhoi pŵer ymchwilio i Weinidogion Cymru. Mae'r gwasanaeth yn Lloegr yn cynnwys cam terfynol lle caiff manylion y sefydliad caffael a chanlyniad ymchwiliad eu cyhoeddi. Y bwriad polisi yw y bydd y gwasanaeth newydd hefyd yn cyhoeddi crynodeb o bob canlyniad unigol. Mae'r argymhellion hyn yn debygol o fynd i'r afael â'r angen am ragor o wybodaeth, neu unioni problem benodol. Os yw'r materion a godir yn berthnasol ar raddfa ehangach, bydd y rhain yn cael eu crynhoi drwy broses adrodd flynyddol a adolygir gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol gyda chymorth ei is-grŵp caffael, a gallent hefyd arwain at gyflwyno canllawiau cyffredinol. Gallai materion ehangach o'r fath ddod yn destun ymchwiliadau caffael mwy cyffredinol.

Cwestiynau’r ymgynghoriad

Cwestiwn 20: Beth yw’ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio’n ymarferol?

10. Cydraddoldeb ac effeithiau

Cydraddoldeb

145. Mae’r Bil drafft yn bwriadu cael effaith gadarnhaol ar amryw o nodweddion gwarchodedig sy’n wynebu anghydraddoldeb cyson ac eang yn y gweithle drwy hyrwyddo gwaith teg. Yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn roedd galw amlwg am ganolbwyntio mwy ar y grwpiau gwarchodedig hyn. Wrth ddatblygu’r Bil drafft, mae asesiad drafft wedi cael ei wneud.

146. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn ystyried bod partneriaeth gymdeithasol yn gyfrwng i sicrhau mwy o gydraddoldeb ledled Cymru, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y gweithle ac annog gwaith teg.

147. Mae’r Bil drafft yn ceisio cyflawni canlyniadau gwaith teg. Mae mynd i’r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp a warchodir yn hanfodol i’r chwe nodwedd gwaith teg, ac felly’r agenda gwaith teg.

148. Yn unol â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol hon, sy’n rhoi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i sicrhau eu bod, wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, yn rhoi sylw dyledus i’r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd, ochr yn ochr â’r Bil drafft, yn rhan o fframwaith sy’n ceisio adeiladu ar y camau cadarnhaol sydd eisoes wedi’u cymryd gan gyrff cyhoeddus i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb, gan gynnwys mesurau i hyrwyddo llesiant cenedlaethau’r dyfodol drwy ddatblygu cynaliadwy.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

149. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y Bil drafft. Diben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw darparu gwybodaeth am gostau a manteision y cynigion a nodir yn y Bil drafft. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys gwerthuso opsiynau a chostau ar gyfer pob rhan o’r Bil drafft.

Safonau'r Gymraeg

150. Roedd dau gwestiwn am y Gymraeg yn y Papur Gwyn. Roedd rhai ymatebion yn galw am adlewyrchu’r Gymraeg yn amlwg mewn deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol, gan ei bod yn chwarae rôl hanfodol o ran cyfrannu at waith teg a chydraddoldeb cymdeithasol.

151. Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried y gallai’r cynigion gael effaith gadarnhaol, yn hytrach na negyddol, ar y Gymraeg ac y byddant yn disgwyl i’r Gymraeg fod yn rhan o’r gwaith o gydweithio’n effeithiol a gweithio mewn partneriaeth.

152. Mae cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi nifer o ofynion ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd ymysg gweithwyr ac yn eu gweithgareddau allanol drwy gyflwyno Safonau y mae modd eu gorfodi drwy Hysbysiadau Cydymffurfio unigol, ac mae'n rhaid i swyddogion sicrhau bod y trefniadau presennol hyn, o leiaf, yn cael eu diogelu.

153. Fodd bynnag, cafodd ei gydnabod nad yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob sefydliad yng Nghymru ac fe argymhellodd un ymatebydd i'r Papur Gwyn, 'fel rhan o'r fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol', y gellid cyflwyno dull pwrpasol tebyg, ond mwy anffurfiol, i'r sefydliadau nad yw Mesur y Gymraeg (Cymru) yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd.

154. Roedd yr argymhellion hefyd yn cynnwys sut gallai darpariaethau caffael nodi'n benodol beth fydd yn ofynnol o ran darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried ymhellach pan fydd y canllawiau statudol sy'n ymwneud â meysydd polisi'r Bil drafft yn cael eu datblygu.

155. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn enghraifft o'r hyn y mae angen ei ystyried yng nghyd-destun llesiant diwylliannol yn y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

156. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys pan fyddant yn llunio polisïau newydd.

157. Nid yw'r cynigion yn effeithio'n benodol ar blant na phobl ifanc. Fodd bynnag, drwy ledaenu buddion twf economaidd cyson yn fwy cyfartal, bydd mwy o deuluoedd yn codi allan o dlodi. Gall lefelau cyflogau a rhai mathau o drefniadau gweithio gyfrannu at y risg o dlodi ymysg teuluoedd sy'n gweithio. Dangosodd dadansoddiad o'r Arolwg Adnoddau Teulu (2015-16 i 2017-18) fod mwy o blant yn byw mewn tlodi incwm perthynol mewn teuluoedd sy'n gweithio na mewn aelwydydd heb waith.

158. Mae cysylltiadau hefyd rhwng tlodi a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae canlyniadau'r arolwg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod 2015 yng Nghymru yn dangos bod y cynnydd yn nifer yr achosion o ddeiet gwael wedi'i nodi fel profiad niweidiol, a bod deiet gwael yn fwy amlwg mewn ardaloedd mwy economaidd ddifreintiedig. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod y rheini sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd mewn mwy o risg o gael mwy nag un profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Drwy anelu at wella llesiant cymdeithasol ac economaidd, mae'r Bil drafft yn bwriadu cael effaith gadarnhaol ar brofiadau niweidiol o'r fath.

159. Mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn mynnu bod rhai sefydliadau yn ystyried llesiant yng nghyd-destun caffael. Mae'r camau a gymerir i adnabod a lliniaru'r risgiau o gaethwasiaeth fodern, sy'n cynnwys

camfanteisio ar weithwyr a llafur plant, yn fater allweddol yn y cyd-destun hwn. Lle bo contractau nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cynnwys nifer sylweddol o gadwyni cyflenwi tramor, bydd canllawiau statudol ac ategol yn cynnwys y camau y dylid eu cymryd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n foesegol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 22: O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham.

Cwestiwn 23: A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol?

Cwestiwn 24: Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 25: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

11. Y camau nesaf

160. Bydd yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cael eu cofnodi wrth iddynt ddod i law a byddant yn cael eu dadansoddi ar ôl i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei lunio a’i gyflwyno i Weinidogion Cymru.

161. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn llawn ac yn briodol. Wrth ddadansoddi'r ymatebion, bydd pwysoliad priodol yn cael ei roi i ymatebion gan sefydliadau mawr (fel cyrff cyhoeddus, cyflogwyr ac undebau llafur mawr) ac i ymatebion gan sefydliadau y mae’r mesurau a nodir yn y Bil drafft yn cael effaith uniongyrchol arnynt.

Atodiad: Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

A yw hwn yn ymateb ar y cyd ar ran eich sefydliad / grŵp o sefydliadau? Os felly, rhowch fanylion:

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Cyfeiriad:

Cwestiwn	Ymateb
Pam mae angen y Bil	
Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â’r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid?	
Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol	
Cwestiwn 2: Beth yw’ch barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft?	
Cwestiwn 3: Beth yw’ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon?	
Cwestiwn 4: Beth yw’ch barn ar y rhestr o gyrff y mae’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai’r rhestr o gyrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt?	
Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg	
Cwestiwn 5: Beth yw’ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg?	

Cwestiwn 6: Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo?	
Cwestiwn 7: A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer 'Gwaith Teg yng Nghymru'?	
Cwestiwn 8: Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg?	
Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	
Cwestiwn 9: Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol?	
Cwestiwn 10: Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol?	
Cwestiwn 11: Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy-Haen)?	
Cwestiwn 12: A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu?	
Cwestiwn 13: Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar	

gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi?	
Cwestiwn 14: Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol?	
Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	
Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch: a. Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol; b. Y broses enwebu arfaethedig?	
Cwestiwn 16: Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau?	
Cwestiwn 17: Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol.	
Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd	
Cwestiwn 18: O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?	
Cwestiwn 19: A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio	

unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?	
Cwestiwn 20: Beth yw'ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio'n ymarferol?	
Cydraddoldeb ac effeithiau	
Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried?	
Cwestiwn 22: O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham.	
Cwestiwn 23: A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol?	
Cwestiwn 24: Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?	
Cwestiwn 25: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau	

cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.	
Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.	